

Agenda – Y Pwyllgor Deisebau

Lleoliad: I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:
Fideogynhadledd drwy Zoom Gareth Price
Dyddiad: Dydd Llun, 13 Medi 2021 Clerc y Pwyllgor
Amser: 10.00 0300 200 6565
Deisebau@senedd.cymru

- 1 **Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datganiadau o fuddiant**
(10.00) (Tudalennau 1 – 46)
- 2 **Deisebau newydd**
(10.00–10.30)
 - 2.1 **P-06-1172 Gwahardd tân gwyllt rhag cael ei werthu i'r cyhoedd**
(Tudalennau 47 – 61)
 - 2.2 **P-06-1174 Mae angen atal Llywodraeth Cymru a grwpiau cyhoeddus rhag gwneud Cymru yn Genedl sy'n Noddfa**
(Tudalennau 62 – 73)
 - 2.3 **P-06-1175 Stopiwch y cyfnodau atal byr yn ystod gwyliau hanner tymor. Dyma'r unig seibiannau y caniateir i staff addysgu eu cael**
(Tudalennau 74 – 78)
 - 2.4 **P-06-1176 Y Siarter Urddas i ysbrydoli pob dinesydd i ddod yn llysgennad dros Gymru**
(Tudalennau 79 – 80)
 - 2.5 **P-06-1177 Darparu cynhyrchion mislif yn rhad ac am ddim i bob person sy'n cael mislif yng Nghymru**
(Tudalennau 81 – 87)
 - 2.6 **P-06-1178 Prydau ysgol am ddim i bob disgybl yng Nghymru**
(Tudalennau 88 – 93)
 - 2.7 **P-06-1180 Cynyddu'r addysgu a'r wybodaeth sydd ar gael yn rhwydd am gyffuriau yn ysgolion uwchradd Cymru**
(Tudalennau 94 – 101)



3 Y wybodaeth ddiweddaraf am ddeisebau blaenorol

(10.30–11.30)

Yr Amgylchedd a Materion Gwledig

- 3.1 P-05-895 Etifeddiaeth Rosa: Dylid cyflwyno cynllun i helpu pobl i gael hawl i ofal milfeddygol ar gyfer eu hanifeiliaid anwes

(Tudalennau 102 – 115)

- 3.2 P-05-1003 Mynnu Aseiad o'r Effaith Amgylcheddol nawr ynghylch gwaredu mwd wedi'i halogi'n radiolegol yn nyfroedd Cymru

(Tudalennau 116 – 143)

Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

- 3.3 P-05-912 Cynorthwyo teuluoedd sy'n colli plant a phobl ifanc yn sydyn ac yn annisgwyl

(Tudalennau 144 – 151)

- 3.4 P-05-1035 Dylid caniatáu i bartneriaid genedigaeth fod yn bresennol adeg sganiau, dechrau esgor, yn ystod yr enedigaeth ac ar ôl yr enedigaeth

(Tudalennau 152 – 156)

- 3.5 P-05-1045 Dylai penderfyniadau ar y cyd ac adolygu cynlluniau gofal iechyd meddwl misol fod yn ofyniad cyfreithiol

(Tudalennau 157 – 161)

- 3.6 P-05-1062 Rhoi'r gorau i'r prawf rt-PCR i brofi ar gyfer COVID-19, gan nad yw'n addas i'r diben

(Tudalennau 162 – 164)

- 3.7 P-05-1138 Profion COVID-19 wythnosol ar gyfer staff sy'n gofalu am bobl ag anghenion iechyd meddygol cymhleth

(Tudalennau 165 – 166)

Addysg

**3.8 P-05-1133 Dylid addasu maes llafur hyfforddiant athrawon i gynnwys
Hyfforddiant Trawsnewidiol a Deallusrwydd Emosiynol**

(Tudalennau 167 – 170)

**3.9 P-05-1135 Cyllid wedi'i dargedu ar gyfer canolfannau addysg awyr agored
preswyl, sydd bellach yn methu â gweithredu am 12 mis**

(Tudalennau 171 – 179)

Diwylliant, twristiaeth a chwaraeon

**3.10 P-05-949 ARBED YR HEN YSGOL GANOLRADD I FERCHED Y BONT-FAEN
RHAG EI DYMCHWEL**

(Tudalennau 180 – 183)

**Caiff y ddwy eitem a ganlyn eu grwpio i gael eu trafod gyda'i
gilydd**

**3.11 P-05-1073 Sefydlu ac adeiladu cangen newydd o Amgueddfa Cymru sy'n
canolbwyntio ar ran Cymru mewn trefedigaethedd**

(Tudalennau 184 – 190)

**3.12 P-05-1086 Dylid creu Amgueddfa Genedlaethol ar gyfer Hanes a
Threftadaeth Pobl Dduon ac Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig Cymru**

(Tudalennau 191 – 194)

Cyllid

3.13 P-05-1069 Arbed y tir fferm a'r caeau gwyrdd yn Cosmeston

(Tudalennau 195 – 209)

Deisebau sydd bellach wedi'u datrys

Caiff y tair eitem a ganlyn eu grwpio i gael eu trafod gyda'i gilydd

3.14 P-05-856 Gwahardd gwerthu cŵn bach gan siopau anifeiliaid anwes a phob gwerthwr masnachol 3ydd parti yng Nghymru

(Tudalennau 210 – 212)

[Rheoliadau Lles Anifeiliaid \(Trwyddedu Gweithgareddau sy'n Ymwneud ag Anifeiliaid\) \(Cymru\) 2021](#)

[Rheoliadau Lles Anifeiliaid \(Trwyddedu Gweithgareddau sy'n Ymwneud ag Anifeiliaid\) \(Cymru\) 2021 – Memorandwm Esboniadol](#)

3.15 P-05-915 Galwad am well gorfodaeth o ffermydd cŵn bach yng Nghymru.

(Tudalen 213)

[Rheoliadau Lles Anifeiliaid \(Trwyddedu Gweithgareddau sy'n Ymwneud ag Anifeiliaid\) \(Cymru\) 2021](#)

[Rheoliadau Lles Anifeiliaid \(Trwyddedu Gweithgareddau sy'n Ymwneud ag Anifeiliaid\) \(Cymru\) 2021 – Memorandwm Esboniadol](#)

[Rheoliadau Lles Anifeiliaid \(Trwyddedu Gweithgareddau sy'n Ymwneud ag Anifeiliaid\) \(Cymru\) 2021, Cyfarfod Llawn 23 Mawrth 2021](#)

3.16 P-05-939 Gosod embargo ar unwaith ar drwyddedau bridio cŵn newydd, ar adnewyddu trwyddedau ac ar geisiadau cynllunio nes bod y rheoliadau'n addas i'r diben a nes bod modd eu gorfodi

(Tudalennau 214 – 215)

[Rheoliadau Lles Anifeiliaid \(Trwyddedu Gweithgareddau sy'n Ymwneud ag Anifeiliaid\) \(Cymru\) 2021](#)

[Rheoliadau Lles Anifeiliaid \(Trwyddedu Gweithgareddau sy'n Ymwneud ag Anifeiliaid\) \(Cymru\) 2021 – Memorandwm Esboniadol](#)

[Rheoliadau Lles Anifeiliaid \(Trwyddedu Gweithgareddau sy'n Ymwneud ag Anifeiliaid\) \(Cymru\) 2021, Cyfarfod Llawn 23 Mawrth 2021](#)

3.17 P-05-1068 Caniatáu cyfarfodydd ymbellhau cymdeithasol mewn gerddi preifat i ddilyn y wyddoniaeth ac osgoi teimlo'n ynysig

(Tudalennau 216 – 221)

3.18 P-06-1191 Diddymu mesurau ymbellhau cymdeithasol ym mhob priodas yng Nghymru yr haf hwn ar ôl 15 Gorffennaf 2021

(Tudalennau 222 – 226)

4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer eitem 5 o'r cyfarfod.

5 Blaenraglen Waith

(11.30 – 11.45)

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

P-06-1172 Gwahardd tân gwyllt rhag cael ei werthu i'r cyhoedd

Y Pwyllgor Deisebau | 13 Medi 2021
Petitions Committee | 13 September 2021

Cyfeirnod: SR21-0497-2

Rhif y ddeiseb: P-06-1172

Teitl y ddeiseb: Gwahardd tân gwyllt rhag cael ei werthu i'r cyhoedd

Geiriad y ddeiseb:

Ffrwydryn yw tân gwyllt, a dim ond mewn amgylchedd rheoledig y dylid ei ddefnyddio. Mae'n achosi pryder i bobl sy'n agored i niwed ac i anifeiliaid anwes. Gallai gael ei ddefnyddio fel arf hefyd.

Dylai eitemau fel hyn fod ar gael ar gyfer digwyddiadau trwyddedig yn unig.

1. Y gyfraith ynghylch gwerthu tân gwyllt, bod yn berchen arno, a'i ddefnyddio

Mae cyfyngiadau ar werthu tân gwyllt, bod yn berchen arno, a'i ddefnyddio. Mae Deddf Tân Gwyllt 2003 yn rhoi pwerau i Lywodraeth y DU reoli'r defnydd o dân gwyllt yng Nghymru a Lloegr,



a hynny er mwyn lleihau'r risg y bydd tân gwyllt yn achosi marwolaeth, anaf neu drallod ymhlith pobl neu anifeiliaid, neu ddifrod i eiddo.

Mae **Rheoliadau Tân Gwyllt 2004** yn gwahardd masnachwyr nad oes ganddynt drwydded rhag gwerthu tân gwyllt i'r cyhoedd, ac eithrio ar ddyddiau sy'n gysylltiedig â 'nosweithiau tân gwyllt a ganiateir' (y Flwyddyn Newydd Tsieineaidd, Diwali, Noson Tân Gwyllt a'r Flwyddyn Newydd). Mae'r rheoliadau hefyd yn gwahardd gwerthu tân gwyllt sydd â lefelau sŵn dros 120 desibel. Mae **Rheoliadau Erthyglau Pyrotechnig (Diogelwch) 2015** yn gosod cyfyngiadau oedran ar werthu tân gwyllt, ac yn gwahardd gwerthu tân gwyllt arddangos proffesiynol i'r cyhoedd.

Mae'r Rheoliadau Tân Gwyllt yn ei gwneud hi'n anghyfreithlon i unrhyw un dan 18 oed fod yn berchen ar dân gwyllt 'oedolyn' (sef tân gwyllt ar gyfer yr awyr agored) mewn man cyhoeddus. Mae'r rheoliadau hefyd yn gwahardd defnyddio tân gwyllt rhwng 23:00 a 07:00 heb ganiatâd yng Nghymru a Lloegr (ac eithrio ar nosweithiau tân gwyllt a ganiateir). O dan **Ddeddf Ffrwydron 1875** (fel y'i diwygiwyd), mae'n anghyfreithlon cynnau tân gwyllt ar stryd neu mewn man cyhoeddus.

Mae gan awdurdodau lleol bwerau o dan **Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2003** i fynd i'r afael â sŵn sy'n dod o gartrefi neu erddi rhwng 23:00 a 07:00. Os yw'r sŵn yn uwch na'r lefelau a ganiateir, mae gan swyddog iechyd yr amgylchedd yr hawl i gyflwyno hysbysiad rhybuddio i'r person sy'n gyfrifol. Os yw'r person dan sylw yn anwybyddu'r hysbysiad, gellir ei erlyn.

2. Camau gweithredu

2.1. Senedd a Llywodraeth y DU

Mae Pwyllgor Deisebau Tŷ'r Cyffredin wedi ystyried sawl deiseb ynghylch camddefnyddio tân gwyllt. Cyhoeddodd **adroddiad ar dân gwyllt** ym mis Tachwedd 2019.

Nid oedd y Pwyllgor yn cefnogi'r cam o wahardd gwerthu a defnyddio tân gwyllt, gan nodi y gallai gwaharddiad arwain at ganlyniadau anfwriadol, fel cyfyngu ar ddigwyddiadau cymunedol ac annog y broses o greu marchnad ddu. Fodd bynnag, gwnaeth y Pwyllgor sawl argymhelliad, gan ddweud y dylai Llywodraeth y DU gymryd y camau a ganlyn:

- cyflwyno deddfwriaeth i alluogi awdurdodau lleol i gyflwyno cynlluniau trwyddedu gorfodol ar gyfer tân gwyllt mewn mannau lle mae camddefnydd yn broblem;
- adolygu'r terfyn desibel ar gyfer tân gwyllt defnyddwyr, gyda'r bwriad o ostwng y terfyn er mwyn diogelu anifeiliaid yn well;
- pennu strategaeth ynghylch mynd i'r afael â'r defnydd a wneir o gyfryngau cymdeithasol i werthu tân gwyllt yn anghyfreithlon; ac

- ariannu a chydlynu ymgyrch ymwybyddiaeth ynghylch defnyddio tân gwyllt yn gyfrifol.

Mewn ymateb, [cytunodd Llywodraeth y DU](#) i gydlynu ymgyrch ymwybyddiaeth, ond gwrthododd y rhan fwyaf o'r argymhellion eraill. Dywedodd y byddai'r Swyddfa Diogelwch a Safonau Cynnyrch (yr OPSS) yn casglu tystiolaeth ar dân gwyllt er mwyn caniatáu i'r Llywodraeth ddeall a yw canfyddiadau a phryderon pobl yn cael eu hadlewyrchu mewn tystiolaeth, ac os felly, pa gamau— os o gwbl—sy'n rhai priodol i'r Llywodraeth eu cymryd. Cyhoeddodd yr OPSS wybodaeth am [ddatblygu sylfaen dystiolaeth](#) ar dân gwyllt ym mis Hydref 2020, a chyhoeddodd [ddadansoddiad o ymddygiadau defnyddwyr a'u hagweddau tuag at dân gwyllt](#) yn y DU ym mis Ebrill 2021.

2.2. Y Senedd a Llywodraeth Cymru

Ymatebodd y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd i'r ddeiseb hon ar 24 Awst, gan ddweud: 'Mae effaith tân gwyllt swnllyd ar anifeiliaid a phobl agored i niwed yn peri cryn bryder i Lywodraeth Cymru' ac amlinellodd gamau gweithredu diweddar.

Ar 14 Ionawr 2020, ysgrifennodd Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig ar y pryd at Lywodraeth y DU i alw am ymateb cryf a manwl i argymhellion Pwyllgor Deisebau Tŷ'r Cyffredin. Roedd hi'n cefnogi argymhellion y Pwyllgor ynghylch cynnal 'adolygiad o derfynau desibelau' a 'gwerthiannau ar-lein' a dywedodd y dylid cynnal deialog ar adolygu pwerau awdurdodau lleol, gan gynnwys trafod a ddylid cyflwyno cynllun trwyddedu gorfodol.

Gofynnodd Aelodau o'r Senedd gwestiynau llafar am dân gwyllt yn y Cyfarfod Llawn ar [10 Tachwedd](#) a [18 Tachwedd 2020](#).

[Dywedodd y Prif Weinidog](#) fod Llywodraeth Cymru wedi gweithio gyda Llywodraeth y DU ar ymgyrch ynghylch defnyddio tân gwyllt yn gyfrifol yn y cyfnod yn arwain at Noson Tân Gwyllt. Dywedodd hefyd fod Llywodraeth Cymru yn 'awyddus iawn i weithio gydag eraill ar y mater hwn', a'i bod yn 'cynnal trafodaethau gyda'r Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol yn Llywodraeth y DU, ac yn wir gyda Llywodraeth yr Alban ynghylch eu cynigion'.

Cyfarfu'r Gweinidog â gweinidogion cyfatebol yn Llywodraeth y DU a Llywodraeth yr Alban ar 28 Ionawr 2021. Ar ôl y cyfarfod hwnnw, ysgrifennodd y Gweinidog at Lywodraeth y DU i godi pryderon nad yw'r ddeddfwriaeth bresennol yng Nghymru 'yn ddigonol i ddiogelu pobl agored i niwed ac anifeiliaid rhag effeithiau sŵn tân gwyllt' ac i fynegi diddordeb yn y newidiadau a wnaed yn yr Alban.

Nododd mai Llywodraeth y DU sydd â phwerau o ran tân gwyllt ar hyn o bryd yng Nghymru a Lloegr, a dywedodd y byddai'n croesawu 'cyd-weithredu' ar draws Prydain Fawr er mwyn ei gwneud yn fwy anodd i bobl osgoi terfynau daearyddol o ran gwerthiant. Dywedodd hefyd, fodd bynnag:

In the absence of a clear commitment by the UK Government to tighten regulations in England and Wales, towards the end of our meeting I raised the possibility of transferring these powers to Welsh Ministers, enabling the next Welsh Government to make the regulations it considers appropriate. [...] You agreed to give the matter further consideration and made a commitment to discuss this with the Secretary of State for Wales. I would welcome an update on this.

Yn ei ymateb, dywedodd Paul Scully, Gweinidog y DU dros Fusnesau Bach, Defnyddwyr a'r Farchnad Lafur:

I remain committed to considering if it would be appropriate for the Welsh Government to be given additional powers in respect of fireworks. Before advancing on this matter, I would want to wait until the outcomes of commitments the Government has made and the impact of the changes the Scottish Government have implemented have been evaluated.

2.3. Llywodraeth yr Alban

Barn Llywodraeth yr Alban yw bod y defnydd o dân gwyllt yn fater sydd wedi'i ddatganoli i'r Alban, ond bod cyflwyno gwaharddiad ar werthu tân gwyllt yn fater a gedwir gan Lywodraeth y DU. Mae gan Weinidogion yr Alban bwerau i reoli tân gwyllt o dan Ddeddf Tân Gwyllt 2003.

Yn 2020, comisiynodd Llywodraeth yr Alban Grŵp Adolygu Tân Gwyllt i wneud argymhellion ynghylch tynhau deddfwriaeth yn ymwneud â dân gwyllt. Gwnaeth y Grŵp argymell newidiadau i'r gyfraith sy'n ymwneud â'r modd y gellir cael gafael ar dân gwyllt a'i ddefnyddio. Nid oedd y Grŵp yn argymell cyflwyno gwaharddiad ar werthu tân gwyllt.

Mewn ymateb i'r argymhellion, gwnaeth Llywodraeth yr Alban is-ddeddfwriaeth gan ddefnyddio'r pwerau yn Neddf Tân Gwyllt 2003, er mwyn cyfyngu ar yr adegau yn ystod y dydd pan geir gwerthu a chynnu tân gwyllt, ac er mwyn cyfyngu ar faint o dân gwyllt y gellir ei gyflenwi i'r cyhoedd i 5kg. Mae Llywodraeth yr Alban hefyd wedi ymgynghori ar newidiadau arfaethedig i ddeddfwriaeth sylfaenol at y dibenion a ganlyn:

- gosod gofyniad ar oedolion i wneud cais am drwydded cyn y gallant brynu tân gwyllt, gan gynnwys cwblhau cwrs hyfforddiant diogelwch ar-lein a thalu ffi;
- cyfyngu'r diwrnodau y ceir gwerthu a defnyddio tân gwyllt i gyfnodau a ganiateir;
- rhoi pŵer i awdurdodau lleol greu ardaloedd dim tân gwyllt, sef mannau lle na chaiff y cyhoedd gynnu tân gwyllt; a
- gwneud y weithred o werthu tân gwyllt i berson dan 18 oed yn drosedd.

Mynegodd y Prif Weinidog gefnogaeth i argymhellion y Grŵp Adolygu Tân Gwyllt yn y Cyfarfod Llawn ym mis Tachwedd 2020, gan ddweud “pe bydden nhw'n cael eu cyflwyno [y mesurau] ar sail y DU gyfan, byddai Cymru yn sicr yn elwa.”

3. Deddf Marchnad Fewnol y DU 2020

Pennodd Deddf Marchnad Fewnol y DU 2020 reolau newydd ar gyfer rheoleiddio nwyddau ledled y DU. Sefydlodd y Ddeddf egwyddorion cydnabyddiaeth gilyddol a pheidio â gwahaniaethu, a'u hymgorffori yng nghyfraith y DU fel Egwyddorion Mynediad i'r Farchnad.

O dan yr egwyddor cydnabyddiaeth gilyddol, os yw nwydd yn cydymffurfio â rheolau sy'n ymwneud â'i werthu yn y rhan o'r DU lle cafodd ei gynhyrchu neu ei fewnforio iddi, gellir ei werthu mewn unrhyw ran arall o'r DU heb orfod bodloni'r safonau yn y rhannau eraill hynny, hyd yn oed os ydyn nhw'n wahanol.

O dan yr egwyddor peidio â gwahaniaethu, nid yw unrhyw reolau sy'n rheoleiddio sut y dylid gwerthu nwyddau mewn un rhan o'r DU sy'n gwahaniaethu'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol yn erbyn darparwyr o rannau eraill o'r DU yn berthnasol yn gyffredinol.

Gallai cyflwyno gwaharddiad ar werthu tân gwyllt yng Nghymru ddod o fewn cwmpas yr Egwyddorion Mynediad i'r Farchnad. Gallai hyn effeithio ar effaith y gwaharddiad hwnnw a'r gallu i'w orfodi.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn yn cael eu diweddarau o reidrwydd na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.

Lee Waters AS/MS
Y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd
Deputy Minister for Climate Change



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-06-1172
Ein cyf/Our ref LW/10808/21

Jack Sargeant AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN
petitions@senedd.cymru

24 Awst 2021

Annwyl Jack,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 22 Gorffennaf ynglŷn â Deiseb P-06-1172, yn galw am waharddiad ar werthu tân gwyllt i'r cyhoedd. Fi sy'n ateb, gan fod sylwadau ar y mater hwn yn tueddu i ganolbwyntio ar sŵn, sy'n dod o dan y portffolio Newid Hinsawdd.

Mae effaith tân gwyllt swnllyd ar anifeiliaid a phobl agored i niwed yn peri cryn bryder i Lywodraeth Cymru. Ym mis Tachwedd y llynedd siaradodd y Prif Weinidog a Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig ar y pryd am y broblem hon yn y Senedd. Yn ystod y trafodaethau hynny lleisiwyd cefnogaeth drawsbleidiol dros dynhau'r rheoliadau yn y maes hwn.

Wrth ymateb i'r ddeiseb hon, rhaid imi nodi bod tân gwyllt yn dod mewn pob siâp a maint. Maent yn amrywio o ffyn gwreichion a thân gwyllt tawel ar gyfer yr ardd, i'r tân gwyllt mwyaf sy'n addas dim ond at ddefnydd proffesiynol. Pan fyddant yn cael eu defnyddio mewn modd cyfrifol maent yn destun pleser i lawer o bobl. Fodd bynnag, pan fyddant yn cael eu defnyddio mewn modd anghyfrifol neu heb roi rhybudd ymlaen llaw, mae tân gwyllt swnllyd yn peri trallod a phryder i bobl sy'n agored i niwed ac anifeiliaid. At ei gilydd nid yw Llywodraeth Cymru yn credu bod y ddeddfwriaeth bresennol yn ddigonol i ddiogelu'r grwpiau hynny yn llawn.

Mae pwerau i reoleiddio gwerthu a defnyddio tân gwyllt yng Nghymru a Lloegr yn bodoli o dan Ddeddf Tân Gwyllt 2003. Ar hyn o bryd Gweinidogion Llywodraeth y DU sy'n gyfrifol am y pwerau hyn, yn benodol yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol (BEIS).

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Lee.Waters@llyw.cymru
Correspondence.Lee.Waters@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Tudalen y pecyn 52
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Yn 2020 ysgrifennodd Gweinidogion Llywodraeth Cymru at BEIS, yn cymeradwyo argymhellion Pwyllgor Deisebau Tŷ'r Cyffredin ar gyfer gwella rheoliadau tân gwyllt. Wedyn, yn gynnar yn 2021, cyfarfu Lesley Griffiths AS â'r Gweinidogion sy'n gyfrifol am bolisi tân gwyllt yn Llywodraeth y DU a Llywodraeth yr Alban. Yno gwnaethant drafod manteision tynhau'r rheoliadau mewn perthynas â tân gwyllt ledled Prydain Fawr. Yn dilyn y cyfarfod hwn, ysgrifennodd Llywodraeth Cymru unwaith eto at y Gweinidog cyfrifol o fewn BEIS, Paul Scully AS, yn annog Llywodraeth y DU i weithredu. Unwaith eto gwnaethom ddweud yr hoffem weld y terfyn ar ddesibelau'n cael ei leihau er mwyn lleihau'r risgiau i iechyd anifeiliaid.

Yn absenoldeb ymrwymiad gan Lywodraeth y DU i dynhau'r rheolau, gwnaethom grybwyll y posibilrwydd o drosglwyddo swyddogaethau i Weinidogion Cymru. Byddai hyn yn ein galluogi i wneud y rheoliadau rydym yn eu hystyried yn briodol ar gyfer Cymru. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod agosrwydd ardaloedd mwyaf poblog Cymru at siopau yn Lloegr, a pha mor hawdd yw siopa ar-lein. Felly, hoffem weld gweithredu ar y cyd ledled Prydain Fawr. Yn y dyfodol hoffem weld tân gwyllt tawelach yn cael eu gwerthu i bobl yng Nghymru a'u gweld yn cael eu defnyddio ar yr adegau y disgwylir iddynt gael eu defnyddio. I'r perwyl hwn, hoffem weld rheoliadau llymach ar ddwy ochr y ffin. Byddai gweithredu cydgysylltiedig ledled Prydain Fawr yn ein helpu i roi negeseuon clir, cyson i'r cyhoedd. Byddai hefyd yn ei gwneud yn fwy anodd i bobl osgoi cyfyngiadau ar werthu tân gwyllt mewn un ardal, drwy fynd i ardal gweinyddiaeth arall.

Rwy'n gobeithio bod hyn yn dangos bod Llywodraeth Cymru yn cymryd y broblem hon o ddifri, ac wedi bod yn pwysu am welliannau yn y maes hwn.

Yn gywir,



Lee Waters AS

Y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd
Deputy Minister for Climate Change

Lesley Griffiths AC/AM
Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig
Minister for Environment, Energy and Rural Affairs

Hannah Blythyn AC/AM
Y Dirprwy Weinidog Tai a Llywodraeth Leol
Deputy Minister for Housing and Local Government



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA/LG/6033/19

Kelly Tolhurst MP
Minister for Small Business, Consumers and Corporate Responsibility
Department for Business, Energy & Industrial Strategy
minister.tolhurst@beis.gov.uk

14 January 2020

Dear Kelly

As Ministers with policy responsibility for animal welfare, air quality, noise and veterans' issues in Wales, we urge the UK Government to provide a detailed and positive response to the recommendations of the House of Commons Petitions Committee inquiry into fireworks, published on 5 November 2019.

Without prejudging the outcome of such work, we urge you to accept the Committee's recommendation for the UK Government to lead a review, working with animal welfare experts and the fireworks industry, of the effects of fireworks noise on animal welfare, with a view to setting a workable reduced maximum decibel limit which would diminish the risks to animal health. We would welcome the opportunity for Welsh Government officials to be involved in and contribute to the terms of reference for such a review, ensuring it addresses serious issues around the effects of fireworks on animals which have arisen here in Wales.

We strongly support the Committee's recommendation for the UK Government to fund and coordinate a major awareness campaign on the responsible use of fireworks. The campaign should encourage people who use fireworks to let their neighbours know in advance, so they can take steps to protect themselves and their animals if they need to. The campaign should include explicit information in relation to the potential impacts of fireworks on vulnerable groups such as autistic people, veterans and those with PTSD and other health conditions, as well as on domestic and working animals. Our officials would be pleased to work with yours to ensure any specific requirements for Wales are met.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Tudalen y pecyn 54

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

We are open-minded regarding the provision of additional powers to assist Local Authorities in managing issues surrounding fireworks. The Committee has recommended piloting a revenue-neutral, mandatory permit system for firework displays at a local level. Local Authority officers in Wales have raised both pros and cons of such an approach with our officials. The prior notification of displays is helpful for informing local residents and ensuring health and safety, and works well on a voluntary basis in some authorities. However, there are concerns a permit system might deter some organisers from mounting public firework displays, potentially leading to an increase in less well run private displays. Some Welsh Local Authority officers have suggested the Licensing Act 2003 should be looked at as a possible vehicle for regulating large firework displays. The Welsh Government would welcome dialogue with the UK Government on the various approaches to reviewing Local Authority powers in this area, with a focus on the practicalities, likely positive outcomes and potential unintended consequences.

We agree the level of concern about fireworks is likely to be under-reported by those affected, and people should be enabled and encouraged to make their concerns known. Our officials should work together, perhaps on guidance to improve the systems public authorities have in place for reporting concerns around the misuse of fireworks and establish a consistent approach to data collection and publication.

We support the Committee's recommendation for the UK Government to conduct a review of online sales of fireworks, with a particular focus on sales via social media, and take measures to exert pressure on social media companies to identify and remove posts advertising unlicensed or illegal fireworks for sale on their platforms. We urge the UK Government to ensure fireworks intended for storage at home are not packaged and designed in a way which appeals to children.

On 10 December, we launched a 13-week public consultation on a Clean Air Plan for Wales: Healthy Air, Healthy Wales. It states we will assess the contribution domestic bonfires and fireworks make to levels of fine particulate matter, and we are taking a cross-Government approach to consider what, if any, further action should be taken in this area. Welsh Government air quality officials would welcome a discussion with officials in the Office for Product Safety and Standards in relation to the air quality impacts of fireworks, including consideration of the range of chemicals which may be present.

We would be grateful if you would take account of the views of Welsh Ministers in formulating your response to the Petitions Committee, and engage with us as work is taken forward. This matter cuts across a number of devolved policy areas, and we should work collaboratively to secure improvements to health and well-being of people and animals.

This letter is being copied for information to Ash Denham MSP, Minister for Community Safety in the Scottish Government, and to the Secretary of State for Wales.

Regards


Lesley Griffiths AC/AM
Gweinidog yr Amgylchedd,
Ynni a Materion Gwledig
Minister for Environment,
Energy and Rural Affairs



Hannah Blythyn AC/AM
Y Dirprwy Weinidog Tai a
Llywodraeth Leol
Deputy Minister for Housing
and Local Government



Department for
Business, Energy
& Industrial Strategy

Leslie Griffiths AM
Minister for Environment, Energy and Rural Affairs
Hannah Blythyn AM
Deputy Minister for Housing and Local Government
Welsh Government
Cardiff Bay
Cardiff CF99 1NA

Kelly Tolhurst MP

Department for Business, Energy &
Industrial Strategy
1 Victoria Street
London
SW1H 0ET

T +44 (0) 20 7215 5000

E enquiries@beis.gov.uk

W www.gov.uk

Our ref: CC2020/00847

Your ref: MA/LG/6033/19

25 January 2020

Reef (estio),

Thank you for your letter dated 14 January 2020. I am grateful for the time taken to write setting out the views of the Welsh Government with regard to the conclusions of the Petitions Select Committee inquiry around fireworks. I will be responding to that inquiry on behalf of the Government in due course.

I am pleased that officials in the Office for Product for Safety and Standards (OPSS), who have responsibility for fireworks policy, have met with officials from both the Welsh Government and the Scottish Government. I would like to encourage their continued joint working, particularly as they are considering how to develop a joint campaign to help educate the public and make them aware of the issues associated with firework use.

Following the two most recent e-petitions and subsequent debates in parliament, I have taken a keen interest in the issue of fireworks and have been listening to the concerns that individuals have been raising in debate and through correspondence. We receive representations from a wide range of stakeholders, including members of the public, organisations and charities, all with ranging views on what the issues are and what action they would like to see.

As you may be aware, I have asked OPSS to develop a fact-based evidence base on the key issues that have been raised around fireworks. This includes looking at data around noise and disturbance, anti-social behaviour, non-compliance, environmental impact, and the impact on humans and animals. The aim is to build a full picture of the data around fireworks in order for us to identify whether there is a problem, and if so, what action - if any - is appropriate. This work will also help us identify trends across fireworks seasons.

I was interested to read of your proposed consultation on a Clean Air Plan for Wales and hope you will be able to share any evidence that you have in relation to the impact of bonfires and fireworks, so that it can be included as part of OPSS' evidence base.

Thank you again for sharing your views. I look forward to the continued joint working of our respective officials.

KELLY TOLHURST MP

Minister for Small Business, Consumers & Corporate Responsibility



Ein cyf/Our ref DC/LG/02850/21

Paul Scully MP
Parliamentary Under Secretary of State
Department for Business, Energy and Industrial Strategy

Minister.Scully@beis.gov.uk

3 March 2021

Dear Paul Scully MP,

Thank you for meeting with Ash Denham MSP, Minister for Community Safety in the Scottish Government and me on 28 January regarding issues around the regulation of fireworks across Great Britain.

As discussed, I do not believe the current legislation is adequate to protect vulnerable people and animals from the effects of firework noise, and I was very interested to hear about the improvements to fireworks legislation being made in Scotland. I am concerned about England and Wales falling behind.

You mentioned the Office for Product Safety and Standards (OPSS) was carrying out testing on the decibel levels of fireworks currently sold in Great Britain. You said this work had been delayed by the pandemic but the results would be available later this year. I previously wrote to your predecessor urging the UK Government to accept the Petitions Committee recommendation seeking a workable reduced maximum decibel limit which would diminish the risks of firework noise to animal health. I would be grateful if you could set out how the OPSS work will inform improvements to the regulations, and current timescales for necessary changes to be made.

During the meeting, I highlighted regulation-making powers under the Fireworks Act remain with the Secretary of State in relation to England and Wales. Therefore, Welsh Ministers are not able to mirror in Wales the regulations recently made by the Scottish Government, tightening conditions on the sale and use of fireworks.

Given the proximity of Wales' most populated areas to shops in England, and the ease of shopping online, I would welcome concerted action across Great Britain to ensure fireworks available for sale to the public in Wales are quieter and used at more predictable times going forwards. Joined up action across Great Britain would allow us to send clear, consistent messages to the public. Co-ordinated action would also make it harder for people to get around geographically limited restrictions on sales introduced by a single administration.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

In the absence of a clear commitment by the UK Government to tighten regulations in England and Wales, towards the end of our meeting I raised the possibility of transferring these powers to Welsh Ministers, enabling the next Welsh Government to make the regulations it considers appropriate. You raised concerns around policy divergence. I would point out divergence within Great Britain is inevitable if England and Wales do not keep pace with the improvements to legislation currently being made in Scotland. You agreed to give the matter further consideration and made a commitment to discuss this with the Secretary of State for Wales. I would welcome an update on this.

I look forward to receiving your views on the issues addressed in this letter.

I am copying this letter to Ash Denham MSP and the Secretary of State for Wales.

Yours Sincerely,



Lesley Griffiths AS/MS

Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig
Minister for Environment, Energy and Rural Affairs

- CC: 1. Ash Denham MSP
Minister for Community Safety
Scottish Government
MinisterCS@gov.scot
2. Secretary of State for Wales



Department for
Business, Energy
& Industrial Strategy

Lesley Griffiths AS/MS
Minister for Environment, Energy and Rural Affairs
Cardiff Bay
Cardiff, CF99 1SN

Paul Scully MP
Parliamentary Under-Secretary of State

**Department for Business, Energy &
Industrial Strategy**
1 Victoria Street
London
SW1H 0ET

T +44 (0) 20 7215 5000
E enquiries@beis.gov.uk
W www.gov.uk

Our ref: CC2021/08129
Your ref: DC/LG/02850/21

23 March 2021

Dear Lesley,

Thank you for your letter dated 3 March 2021 about our meeting, together with Ash Denham MSP, Minister for Community Safety in the Scottish Government, on 28 January to discuss fireworks. It was helpful to have the opportunity to hear your views and thoughts.

As you know, the Petitions Committee carried out an extensive inquiry into fireworks that covered the whole of Great Britain and published its report in November 2019. The Committee concluded that they could not “support a ban (of consumer fireworks) before other, less drastic but potentially more effective, options have been fully explored”.

The Government agrees with the Committee’s approach. Furthermore, we do not feel at present that any further restrictions in relation to fireworks are appropriate, as they could have unintended consequences. We acknowledge the experience of the National Fire Chiefs Council and the National Police Chiefs Council who believe banning fireworks would push the market underground and make it more difficult to monitor. Nevertheless, we are not complacent and have been carrying out work to deliver the commitments we made in response to the Petition Committee’s inquiry.

As you will understand, the pandemic has been a key focus, meaning stakeholders’ attention has been on other highly important matters. Despite this, the Office for Product Safety and Standards (OPSS) continues to engage regularly with animal welfare bodies, including the RSPCA, The Kennel Club and the British Horse Society. This is intended to ensure we have access to all available evidence. The Government also engages with a wide range of other stakeholders, including ex-armed forces charities, to ensure we understand the issues and that we are focusing on the right messages in our awareness campaigns.

On 29 October 2020, OPSS published a Fireworks Evidence Base that collated available data and research about noise and disturbance, anti-social behaviour, non-compliance, environmental impact, and the impact on humans and animals. The intention of the evidence base was to collate existing information, to build a full picture of the data around fireworks.

A key commitment the Government made in response to the Petition Committee’s inquiry was to run a public awareness campaign for the 2020 fireworks season. We believe the campaign was successful and far-reaching. Subsequent reports from Twitter showed that, between 11 October and 9 November 2020, the campaign materials had a potential reach of 2.6 million (total number of people who saw the content) and 9.4 million potential impressions (number of times content was displayed).

The Fireworks Evidence Base work with stakeholders and the conclusions of the Petition Committee's inquiry indicate that awareness raising and education are key to ensuring anti-social behaviour is minimised and that fireworks are used considerately. I am pleased that the assets for the 2020 campaign were translated into Welsh. I also understand that they were used in the campaign and shared with your officials to promote in the most appropriate way for Wales. We have started to plan for the 2021 campaign, and we will be keen to engage with your officials as we develop the approach.

Other commitments the Government made and continues to work on include:

- Engaging with Local Authorities to better understand what specific issues they face. To date we have received limited evidence, but we continue to engage and monitor issues by area;
- Engaging with the Department for Health and Social Care and Home Office to determine whether data collection of firework related incidents could be improved and if it would be beneficial to do so;
- Engaging with the Home Office, the police and fire services to better understand what issues they face with fireworks, to inform a decision as to whether non-compliance or criminal activity incidents require a change in the way they are reported;
- An OPSS project aimed at reducing the flow of unsafe products through fulfilment houses within the UK. The project includes capturing data on fulfilment activity within the UK and disrupting the activity of any fulfilment houses supplying unsafe products. While the project does not focus on fireworks, we believe the lessons learned can be applied more widely;
- Engaging with online platforms to ensure they are aware of their responsibilities and are taking action to remove any listings of unsafe products;
- Engaging with the fireworks industry to consider what action can be taken on a voluntary basis. The industry is already considering how they can encourage consumers to read the instructions that come with fireworks (an issue we have identified as part of our evidence base work).

As part of the Government response to the Petition Committee's inquiry, OPSS committed to do further work on noise, and a research programme was commissioned to test the decibel level of commonly used fireworks. The objective of the testing work is to help us understand the decibel level associated with a range of fireworks, and whether there are any that can be considered as "low" noise. In the context of the pandemic, the testing laboratories had to re-prioritise their workload and we hope the testing can be completed later this year.

With regards to the legislative amendments the Scottish Government is implementing, I am keen to understand the impact the changes have made. I believe this is necessary to consider whether similar changes are needed for England and Wales and to what extent the objective could be achieved through non-legislative ways in England and Wales.

I remain committed to considering if it would be appropriate for the Welsh Government to be given additional powers in respect of fireworks. Before advancing on this matter, I would want to wait until the outcomes of commitments the Government has made and the impact of the changes the Scottish Government have implemented have been evaluated. I am mindful that

this approach is supported by the extensive Petition Committee's inquiry (of which I was a member).

I encourage our officials across England, Scotland and Wales to continue to engage and work collaboratively. Of course, I would be happy to discuss the matter again as work progresses.

Thank you once again for taking the time to write, I hope my response is helpful to you.

This letter is copied to Ash Denham, MSP.



PAUL SCULLY MP

Minister for Small Business, Consumers & Labour Markets
Minister for London

P-06-1174 Mae angen atal Llywodraeth Cymru a grwpiau cyhoeddus rhag gwneud Cymru yn Genedl sy'n Noddfa

Y Pwyllgor Deisebau | 13 Medi 2021
Petitions Committee | 13 September 2021

Cyfeirnod: RS21/0497-4

Rhif y ddeiseb: P-06-1174

Teitl y ddeiseb: Mae angen atal Llywodraeth Cymru a grwpiau cyhoeddus rhag gwneud Cymru yn Genedl sy'n Noddfa

Geiriad y ddeiseb:

Mae Llywodraeth Cymru a grwpiau cyhoeddus, wrthi'n hyrwyddo Cymru fel "cenedl sy'n noddfa" er mwyn i wladolion tramor (ffoaduriaid a cheiswyr lloches) ddod i fyw yng Nghymru. NID dyma yw ewyllys mwyafrif pobl Cymru. Nid yw Llywodraeth Cymru wedi ymgynghori â'u hetholwyr eto (h.y. Cymru fel cenedl) ynglŷn â'r mater hwn. Os daw Cymru i fod yn Genedl sy'n Noddfa, bydd treftadaeth Cymru yn cael ei herydu yn gyflym iawn.

Dyma'r dyfyniad a geir ar <https://wales.cityofsanctuary.org/cy/> "Rydym yn falch bod gennym gefnogaeth Llywodraeth Cymru eisoes ac rydym wedi cychwyn ar waith hynod o gyffrous gyda phrifysgolion, y gwasanaeth iechyd ac undebau llafur". Er bod lleiafrif bach iawn o bobl yng Nghymru, yn barod i agor eu breichiau, eu cartrefi a'u gwlad i ffoaduriaid a cheiswyr lloches, NID yw hynny'n cynrychioli'r rhan fwyaf o bobl sy'n byw yng nghenedl Cymru.

Yn syml, ni allwn ni fel cenedl gynnal mwy o ffoaduriaid a cheiswyr lloches i'w lleoli/cartrefu yng Nghymru. Mae Llywodraeth Cymru eisoes yn methu fforddio gofalu am bobl a theuluoedd sy'n ei chael hi'n anodd rhoi bwyd ar y bwrdd neu do uwch eu pennau. Mae miloedd o bobl/teuluoedd (gan gynnwys plant) sy'n ddigartref yng Nghymru ac sydd angen cymorth ar frys. Gallai'r arian a arbedir trwy beidio â derbyn y ffoaduriaid a'r ceiswyr lloches hyn yng Nghymru, gael ei wario ar helpu pobl Cymru sydd ag angen mawr amdano.

Rydym ni (y rhai sydd wedi'u llofnodi) eisiau diddymu Cymru fel cenedl sy'n noddfa.



1. Cefndir

1.1. Cyd-destun hanesyddol

Dechreuwyd amddiffyn pobl sy'n ffoi o'u mamwlad ym 1921 pan ddechreuodd Cynghrair y Cenedloedd, yn dilyn y Rhyfel Byd Cyntaf, gydlynw set o gytundebau rhyngwladol i ddarparu dogfennau teithio i'r bobl hynny.

Yn dilyn y cynnydd sydyn mewn pobl sydd wedi'u dadleoli yn ystod ac ar ôl yr Ail Ryfel Byd, arweiniodd cynhadledd ddiplomyddol yng Ngenefa at y Gonfensiwn Ffoaduriaid 1951, a ddiwygiwyd yn ddiweddarach gan Brotocol ym 1967. Mae Asiantaeth Ffoaduriaid y Cenedloedd Unedig (sef yr UNHCR) yn goruchwyllo'r naill gytundeb â'r llall – sydd â 149 o bartïon y wladwriaeth – a nhw yw'r prif gytundebau rhyngwladol ar gyfer amddiffyn ffoaduriaid.

Prif egwyddor y Confensiwn Ffoaduriaid yw '*non-refoulement*', sy'n honni na ddylid dychwelyd ffoadur i wlad lle mae'n wynebu bygythiadau difrifol i'w bywyd/fywyd neu ryddid.

Erbyn hyn, mae *non-refoulement* yn cae ei hystyried yn un o reolau cyfraith ryngwladol arferol. Mae hynny'n golygu ei bod yn cael ei chymhwyso ar gyfer pob gwladwriaeth, ni waeth a yw cytundeb rhyngwladol yn bodoli neu'r hyn yw eu statws mewn perthynas ag ef.

Mae amddiffyn ffoaduriaid hefyd wedi'i ymgorffori'n anuniongyrchol mewn cytundebau rhanbarthol eraill y mae'r DU yn rhan ohonynt, fel y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. Mae Erthygl 2, er enghraifft, yn sicrhau'r hawl i fywyd ac mae Erthygl 3 yn darparu ar gyfer rhyddid rhag artaith a thriniaeth annynol neu ddiraddiol. Gyda'i gilydd, maen nhw'n gwahardd '*refoulement anuniongyrchol*', sy'n golygu diarddel i wladwriaeth lle gall ymfudwyr wynebu cael eu halltudio ymhellach, heb asesiad cywir o'u sefyllfa.

1.2. Diffiniadau

Mae Confensiwn Ffoaduriaid 1951 yn disgrifio ffoadur fel a ganlyn:

Person sydd y tu allan i'w wlad ei genedligrwydd/chenedligrwydd neu breswylfa arferol; mae ganddo/ganddi ofn ar sail dda o erledigaeth oherwydd ei hil, crefydd, cenedligrwydd, aelodaeth o grŵp cymdeithasol penodol neu farn wleidyddol; ac yn methu neu'n anfodlon manteisio ar amddiffyniad y wlad honno – neu ddychwelyd yno – oherwydd ei bod/fod yn ofni erledigaeth.

Mae hyn yn wahanol i'r diffiniad o geisiwr lloches, sydd fel a ganlyn:

person sydd wedi croesi ffin ryngwladol i chwilio am amddiffyniad, ond nad oes penderfyniad wedi cael ei wneud ynghylch ei gais/chais am statws ffoadur, hyd yn hyn.

Mae ceisiwr lloches, felly, yn rhywun sydd wedi cyrraedd gwlad ac wedi gofyn am loches. Hyd nes y bydd yn cael penderfyniad o ran a ydyw'n ffoadur ai peidio, caiff ei alw'n geisiwr lloches.

Yn y DU, nid oes gan geiswyr lloches yr un hawliau â ffoadur neu ddinesydd Prydeinig. Er enghraifft, ni chaniateir i bobl sy'n ceisio lloches weithio na hawlio budd-daliadau.

1.3. Cefnogaeth Llywodraeth y DU i geiswyr lloches

Mae Llywodraeth y DU yn darparu tai, cefnogaeth ariannol a mynediad at wasanaethau i geiswyr lloches os ydynt nhw'n bodloni'r gofynion o ran cymhwysedd (sef eu bod yn ddiartref neu nad oes ganddyn nhw arian i brynu bwyd).

Mae darpariaeth gyfwerth yn cael ei gwneud ar gyfer y rheini y mae eu cais am loches yn cael ei wrthod, sy'n gorfod bodloni gwahanol ofynion o ran cymhwysedd.

Tai

Dyrennir tai gan Lywodraeth y DU ac ni all ceiswyr lloches ddewis ble maen nhw'n byw.

Cymorth ariannol

Mae ceiswyr lloches yn cael £39.63 yr wythnos y pen ar yr aelwyd i dalu am fwyd, dillad a nwyddau ymolchi. Mae'r lwfans hwn yn cael ei roi ymlaen llaw ar gerdyn debyd bob wythnos.

Mae menywod beichiog a menywod plant ifanc yn cael symiau ychwanegol, fel a ganlyn:

Mam feichiog	£3
Babi sy'n iau nag 1 oed	£5
Plentyn rhwng 1 a 3 oed	£3

Gellir darparu taliad mamolaeth untro ychwanegol o £300 i famau os oes disgwyl i'w babi gael ei eni mewn 8 wythnos neu lai, neu os yw eu babi o dan 6 wythnos oed.

Gwasanaethau

Mae ceiswyr lloches yn gallu derbyn gofal iechyd y GIG yn rhad ac am ddim, gan gynnwys presgripsiynau am ddim, gofal deintyddol, profion golwg a help i dalu am sbectol.

Gall plant fynd i ysgolion y wladwriaeth, ac mae hynny'n cynnwys gallu gwneud cais am brydau ysgol am ddim

Yng Nghymru, mae gan geiswyr lloches a cheiswyr lloches a gafodd eu gwrthod yr hawl i'r un mynediad i wasanaethau iechyd â'r boblogaeth breswyl.

1.4. Bil Cenedligrwydd a Ffiniau'r DU

Mae Bil Cenedligrwydd a Ffiniau Llywodraeth y DU yn mynd drwy Senedd y DU ar hyn o bryd. Dyma dri phrif amcan y Ddeddf:

1. Cynyddu tegwch y system er mwyn amddiffyn a chefnogi'r rheini sydd angen lloches yn well.
2. Atal mynediad anghyfreithlon i'r Deyrnas Unedig, a thrwy hynny dorri model busnes pobl sy'n smyglo rhwydweithiau gan amddiffyn bywydau'r rheini y maent yn eu peryglu.
3. Sicrhau bod y rheini sydd heb hawl i fod yn y DU yn gadael y DU yn haws.

Yn ôl Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin, byddai teithiau afreolaidd i'r DU a hawliadau hwyr am loches yn cael eu hatal a'u cosbi mewn sawl ffordd.'

Byddai'n caniatáu ar gyfer prosesu alltraeth o ran ceisiadau ar gyfer lloches, sef arfer y mae'r Cenhedloedd Unedig yn ei ddisgrifio fel un sy'n dad-ddyneiddio, yn ddrud ac yn methu â datrys achosion sylfaenol symud a dadleoli. Byddai'r Bil yn cyflwyno ffyrdd newydd o atal rhai hawliadau, yn ehangu sancsiynau troseddol am droseddau cysylltiedig ac yn cynyddu cosbau sy'n gysylltiedig â hwy i'r eithaf. At hynny, byddai'n rhoi pwerau ychwanegol i gychod ym moroedd tiriogaethol y DU gael eu stopio a'u hailgyfeirio.

Gwnaeth yr UNHCR gyhoeddi datganiad yn dweud ei fod yn drist bod y Bil wedi pasio ei ail ddarlleniad.

2. Cymru


2.1. Ystadegau

Ffoaduriaid yng Nghymru

Cafodd y broses o ailsefydlu ffoaduriaid ei hatal dros dro yn ystod ail a thrydydd chwarter 2020 oherwydd pandemig y Coronafeirws. Cafodd y broses o ailsefydlu ei rhoi ar waith eto ym mis

Rhagfyr 2020, pan gafodd 2 ffoadur eu hailsefydlu yng Nghymru. Ailsefydlwyd 21 o ffoaduriaid yng Nghymru yn chwarter cyntaf 2021.

Mae'r graff isod yn dangos nifer y ffoaduriaid a ailsefydlwyd yng Nghymru er 2017 fesul chwarter yn y graff isod:



Ffynhon

nell: Ystadegau Mewnfudo'r Swyddfa Gartref, [Res_D01: Ffoaduriaid a gafodd eu hailsefydlu yn ôl cynlluniau ailsefydlu ac awdurdodau lleol](#) (diweddarwyd 27 Mai 2021)

Ceiswyr lloches yng Nghymru

Ar 31 Mawrth 2021, roedd 2,734 o geiswyr lloches yng Nghymru.

Mae data awdurdodau lleol **yn dangos** nifer y geiswyr lloches oedd yn cael cefnogaeth hyd at 31 Mawrth 2021. Darperir cefnogaeth o dan ddeddfwriaeth ledled y DU, ac mae wedi'i rhannu'n ddau gategori: cynhaliaeth yn unig a llety gwasgarog. Mae llety **gwasgarog** yn golygu llety dros dro yn y tymor hir a ddarperir trwy'r Swyddfa Gartref.

Ar 31 Mawrth 2021, roedd 10 allan o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru'n darparu cefnogaeth, fel a ganlyn:

Awdurdod Lleol	Nifer y geiswyr lloches sy'n derbyn cefnogaeth: cynhaliaeth yn unig	Nifer y geiswyr lloches sy'n derbyn cefnogaeth: llety gwasgarog
Caerffili	1	0
Caerdydd	48	1,322

Conwy	0	6
Merthyr Tudful	2	0
Castell-nedd Port Talbot	1	0
Casnewydd	23	403
Rhondda Cynon Taf	2	0
Abertawe	18	783
Bro Morgannwg	1	1
Wrecsam	3	120

Ffynhonnell: Ystadegau mewn fudo'r Swyddfa Gartref, Asy_D11: Ceiswyr lloches sy'n derbyn cefnogaeth adran 95 gan awdurdod lleol (diweddarwyd 27 Mai 2021)

3. Camau gan Lywodraeth Cymru

Yn 2019, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru mai hi fyddai'r **Genedl Noddfa** gyntaf yn y byd. Roedd hynny **mewn ymateb** i ymchwiliad yn 2017 gan Bwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau'r Bumed Senedd i ffoaduriaid a cheiswyr lloches yng Nghymru.

Mae **asesiad o effaith** Llywodraeth Cymru yn crynhoi'r modd y mae'r polisi:

yn ceisio dymchwel rhwystrau i geiswyr lloches ddefnyddio gwasanaethau, gwella cymorth cyflogadwyedd i ffoaduriaid, gwella integreiddio a gwybodaeth am hawliau i ffoaduriaid a cheiswyr lloches a lliniaru amddifadedd, salwch meddwl a digartrefedd.

Daeth yr asesiad i'r casgliad canlynol: 'Ni chanfuwyd unrhyw effeithiau negyddol i'r cynigion hyn.'

Cydymffurfriad rhyngwladol a chydabyddiaeth

Mae'n ofynnol ar Lywodraeth Cymru a'i Gweinidogion i gydymffurfio â rhwymedigaethau rhyngwladol y DU a Chymru.

Yn y cynllun, mae Llywodraeth Cymru yn esbonio sut mae'r polisi'n sicrhau ei bod yn cyflawni **rhwymedigaethau rhyngwladol Cymru** ac yn cydymffurfio â saith Confensiwn y Cenhedloedd Unedig, a lofnodwyd ac a gadarnhawyd gan y DU.

Cafodd y polisi Cenedl Noddfa **ei ardystio gan y Cenhedloedd Unedig**, a roddodd ei gefnogaeth yn llawn i'r polisi.

Datganoli

At hynny, roedd y cynllun yn gyfle i Lywodraeth Cymru nodi ei safbwynt ar drefniadau o ran ddatganoli, o gofio bod lloches a mewnfudo yn faterion sydd wedi'u neilltuo i Lywodraeth y DU:

Llywodraeth y DU yn hytrach na Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am loches a mewnfudo. Mae hyn yn golygu bod rhai o'r ysgogwyr allweddol i atal canlyniadau niweidiol, megis gwneud penderfyniadau amserol a da am achosion lloches, ansawdd llety lloches a darpariaeth cymorth cyfreithiol, y tu hwnt i'n rheolaeth ni.

Fodd bynnag, bydd integreiddio ffoaduriaid a cheiswyr lloches yn llwyddiannus yn gofyn am ymdrech ar y cyd gan Lywodraeth Cymru, gwasanaethau cyhoeddus Cymru a chymunedau Cymru.

Costau

Ym mis Tachwedd 2020, ymatebodd Llywodraeth Cymru i Gais Rhyddid Gwybodaeth am gyfanswm costau ei rhaglen Cenedl Noddfa hyd yn hyn. Mae'r rhain fel a ganlyn:

Annex A

Name of Project/Scheme	Cost (Jan 2019 – Oct 2020)
ReStart: Refugee Integration*	£1,502,922
Asylum Rights Programme	£760,500
Asylum Justice	£45,000
Sanctuary Website	£17,071
WARD Scheme	£54,466
Move On Project**	£323,330
Research (Hosting)	£10,000
Research (Employer Gaps and Opportunities)	£14,998
Hate Crime Funding (WRC)	£36,000
Total	£2,764,287

* This Project is funded through the EU Asylum Migration Integration Fund.

** This cost is based on the annual allocation for the project during 2019-20 and 2020-21.

Roedd yr ymwadiad canlynol yn cyd-fynd â'r wybodaeth:

The Nation of Sanctuary plan was developed through extensive cross-government working on the basis that all parts of the Welsh Government should be ensuring that schemes and initiatives are inclusive of those with protected characteristics, including refugees or asylum seekers. Accordingly, many of the actions in the plan reflect in-depth discussions about how existing funded schemes can be better aligned to the needs of

these individuals. It is not possible to quantify how much of these general budgets has been used to support these members of our communities.

Gofynnwyd am y wybodaeth ganlynol a ddyfynnir hefyd, ond nid oedd y wybodaeth ar gael gan Lywodraeth Cymru:

- Dadansoddiad o'r costau ar gyfer tai, gofal iechyd a chyfieithwyr ac ati.
- A oes unrhyw un o'r bobl hyn wedi bod yn gysylltiedig â throseddau, ac os felly, pa droseddau?
- Pa ganran o'r bobl hyn sy'n gyflogedig?

Dyma oedd esboniad Llywodraeth Cymru mewn ateb i'r cwestiwn i'r cwestiwn a oes gan y bobl a gymerwyd i mewn unrhyw stoc o dai cymdeithasol ac os felly, faint ym mhob sir?

Asylum seekers are provided with accommodation on a 'no choice' basis by the Home Office – this is not considered to be social housing and is rented from private landlords. If granted refugee status, local authorities are able to provide homelessness assistance to individuals but the Welsh Government does not hold information relating to the number of refugees accommodated in social housing.

Fe wnaeth **yr ymateb egluro hefyd** y datblygwyd cynllun Cenedl Noddfa ar gyfer tymor y Bumed Senedd – a ddaeth i ben ym mis Ebrill 2021 – ac y byddai angen i Lywodraeth Gymru yn y dyfodol ystyried gwaith y tu hwnt i hynny.

Yn flaenorol, roedd Llywodraeth Cymru wedi ymateb i gais Rhyddid Gwybodaeth am nifer yr ymfudwyr/ffoaduriaid anghyfreithlon sy'n cael eu cartrefu mewn gwestai, hosteli a phreswylfeydd preifat yng Nghymru' (**mis Medi 2020**).

Datganiadau diweddaraf Llywodraeth Cymru

Mae'r **Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol, Jane Hutt**, yn gyfrifol am weithgareddau Llywodraeth Cymru mewn perthynas â cheiswyr lloches a ffoaduriaid ers etholiadau'r Senedd ym mis Mai 2021.

Ar 17 Mehefin 2021, rhoddodd y Gweinidog **ddatganiad yn nodi Wythnos Ffoaduriaid** a roddodd y wybodaeth ddiweddaraf am weithgareddau diweddar Llywodraeth Cymru. Esboniodd y datganiad:

- Mae gwasanaethau a ariennir – er enghraifft y Rhaglen Hawliau Lloches a chyngor cyfreithiol Cyfiawnder Lloches – wedi parhau i gyflawni mewn amgylchiadau heriol iawn, ar lwyfannau rhithiol.
- Mae **gwefan Noddfa** Llywodraeth Cymru wedi cael ei diweddarau i sicrhau y gellir cael gafael ar negeseuon allweddol am reoliadau Covid-19 yn hawdd mewn llawer o ieithoedd. Dros y misoedd nesaf, bydd y wybodaeth a ddarperir ar y wefan yn cael ei ehangu i

gynnwys gwybodaeth ar gyfer dinasyddion yr UE a Gwladolion Prydeinig Hong Kong, cyn ychwanegu categorïau ychwanegol o fudwyr a all deithio i Gymru i ddechrau bywyd newydd;

- Wedi ariannu'r broses o osod cysylltiad dros dro i'r rhyngwlad mewn eiddo lloches yng Nghymru am gyfnod o 6 mis i'w helpu i gysylltu â'u teulu a'u ffrindiau, a chaniatáu mynediad i weithgareddau integreiddio allweddol fel dosbarthiadau Saesneg;
- Yn sicrhau bod Llywodraeth y DU yn 'deall ei barn yn llawn' am ei Chynllun Newydd ar gyfer Mewnfudo, gan gynnwys 'rhoi ceiswyr lloches mewn cymunedau ac nid mewn canolfannau derbyn ynysig tebyg i garchardai'.

Roedd y datganiad hefyd yn rhoi diweddariad ar weithgareddau ysgolion, prifysgolion, colegau, busnesau ac awdurdodau lleol wrth gefnogi Cymru fel Cenedl Noddfa.

Affganistan

Wrth ysgrifennu'r briff hwn, mae nifer o wladwriaethau wedi cyhoeddi y byddan nhw'n derbyn y rheini sy'n ffoi o Affganistan.

Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi **Polisi Adleoli a Chymorth i Affganiaid** Llywodraeth y DU. Nid yw Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi eto beth yw ei chynlluniau i ddarparu lloches, er iddi **gadarnhau** ei bod yn gweithio gyda Llywodraeth y DU, ac mae awdurdodau lleol Cymru wedi **rhoi gwybod i'r BBC** beth yw eu cynlluniau. Bydd 5,000 o ffoaduriaid yn cael lloches yn y DU ym mlwyddyn gyntaf y polisi, gyda blaenoriaeth yn cael ei rhoi i fenywod a merched. Mae **Llywodraeth y DU wedi ymrwymo** i ddarparu noddfa i 20,000 o ffoaduriaid, fodd bynnag, ni roddwyd llinell amser benodol ar gyfer y 15,000 sy'n weddill oni bai am 'yn y blynyddoedd i ddod'.

4. Camau a gymerwyd gan y Senedd

Cyhoeddodd **Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau** y Bumed Senedd ei adroddiad ar ffoaduriaid a cheiswyr lloches yn 2017. Gwnaeth yr adroddiad, "**Roeddwn i'n arfer bod yn rhywun**" arwain at **gyhoeddiad Llywodraeth Cymru** y byddai Cymru'n dod yn Genedl Noddfa.

Yn dilyn etholiadau'r Senedd ym mis Mai 2021, sefydlwyd **Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol** y Chweched Senedd ar 23 Mehefin 2021. Mae **cylch gwaith y pwyllgor** yn cwmpasu cydraddoldeb a hawliau dynol, gwaith teg, cydlyniant cymunedol a diogelwch, mynd i'r afael â thlodi, rhoi Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 ar waith, ac unrhyw faterion trawsbynciol cysylltiedig o fewn ei gylch gwaith.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn yn cael eu diweddarau o reidrwydd na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.

Jane Hutt AS/MS
Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol
Minister for Social Justice



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf P-06-1174
Ein cyf JH-/10312/21

Jack Sargeant AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

Government.Committee.Business@llyw.cymru

19 Awst 2021

Annwyl Jack,

Diolch am eich llythyr diweddar ar ran y Pwyllgor Deisebau ynghylch deiseb P-06-1174, yn gofyn inni ystyried y cais i atal Llywodraeth Cymru a grwpiau cyhoeddus rhag gwneud Cymru yn Genedl Noddfa, ac i beidio â chefnogi rhai o aelodau mwyaf bregus ein cymdeithas.

Cydraddoldeb a hawliau dynol yw congflaen Llywodraeth Cymru, a'n gweledigaeth ar gyfer Cymru. Dyna hefyd yw congflaen ein hunaniaeth genedlaethol. Nid wyf yn credu mai anwybyddu angen yw'r hyn sy'n ein diffinio fel Cymry, ond trugaredd sydd wedi ei hen sefydlu'n ddwfn yn ein hunaniaeth. Nid oes amheuaeth mai'r gofal a'r trugaredd hwn tuag at ein gilydd, yn enwedig yn ystod y cyfnod eithriadol ansicr yma, sydd wedi arwain mwy o bobl nag erioed i ddewis ymddiried unwaith eto yn y Llywodraeth hon.

Datblygwyd cynllun Cenedl Noddfa drwy ymgynghoriad agored dros gyfnod 3 mis, a ddechreuodd ar 22 Mawrth 2018 ac a orffennodd ar 25 Mehefin 2018. Gwnaethom gwrdd â phobl a oedd yn chwilio am noddfa a gwasanaethau cyhoeddus ar draws Gymru a gwranddo arnynt, cyn ac yn ystod yr ymgynghoriad. Roedd yr ymgynghoriad hefyd yn agored i'r cyhoedd gael gwneud sylwadau. Gweler copi cryno o ymatebion yr ymgynghoriad [yma](#). Fel yr eglurwyd yn glir yn yr adroddiad, "Yn gyffredinol, mae'r

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Jane.Hutt@llyw.cymru
Correspondence.Jane.Hutt@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Tudalen y pecyn 7?
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

ymatebion i'r ymgynghoriad yn dangos cefnogaeth sylweddol i'r cynigion yn y fersiwn ddrafft o Gynllun Cenedl Noddfa.”

Nod Cynllun Cenedl Noddfa yw sicrhau bod y bobl sy'n chwilio am noddfa yn gallu ailsefydlu eu bywydau yma. Yn ogystal â hynny, mae am sicrhau eu bod yn gallu dod yn rhan o'n cymunedau, a defnyddio eu sgiliau a'u profiad i'r graddau llawnaf. Mae ymrwymiad y Llywodraeth hon i Gynllun Cenedl Noddfa, a'r bobl y mae am eu cefnogi, yn gadarn o hyd.

Yn gywir,

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Jane', with a horizontal line above the first letter.

Jane Hutt AS/MS

Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol
Minister for Social Justice

Stopiwch y cyfnodau atal byr yn ystod gwyliau hanner tymor. Dyma'r unig seibiannau y caniateir i staff addysgu eu cael

Y Pwyllgor Deisebau | 13 Medi 2020
Petitions Committee | 13 September 2020

Cyfeirnod: RS21/0497-5

Rhif y ddeiseb: P-06-1175

Teitl y ddeiseb: Stopiwch y cyfnodau atal byr yn ystod gwyliau hanner tymor. Dyma'r unig seibiannau y caniateir i staff addysgu eu cael

Geiriad y ddeiseb: Rydym wedi cael un cyfnod atal byr eisoes yn ystod hanner tymor ac nid oedd staff addysgu yng Nghymru yn gallu mynd i unrhyw le na gwneud dim byd. Nid oes modd i ni drefnu wythnos neu ddwy i ffwrdd o'r gwaith yn ôl ein dymuniad, mae'n rhaid iddynt fod yn ystod cyfnod gwyliau'r ysgol yn unig. Nid yw ond yn deg bod staff addysgu a'r plant yn gallu mynd i fwynhau eu hoe am eu holl waith caled yn ystod y tymor, yn union fel y gallem pe byddem yn cael dewis gwyliau. Rhowch y rhyddid i blant, staff, a rhieni fwynhau amser gwerthfawr gyda'i gilydd yn gwneud yr hyn y maent am ei wneud.



1. Y sefyllfa bresennol o ran cyfyngiadau COVID-19

Mae Cymru ar **Lefel Rhybudd 0** ar hyn o bryd. Er bod rhai cyfyngiadau yn parhau, er enghraifft mae'n rhaid i bobl i hunanynysu am 10 diwrnod o hyd os ydynt yn cael canlyniad positif am COVID-19, mae gorchuddion wyneb yn orfodol o hyd mewn llawer o leoliadau dan do, ac mae Llywodraeth Cymru yn cynghori yn erbyn teithio rhyngwladol nad yw'n hanfodol, mae'r rhan fwyaf o'r cyfyngiadau a gyflwynwyd i reoli lledaeniad COVID-19 wedi dod i ben.

1.1. Addysg

Ar hyn o bryd mae ysgolion a cholegau ar agor i'r holl ddisgyblion a myfyrwyr ar wahân i'r rhai sy'n hunan-ynysu oherwydd COVID-19.

Ar **27 Awst 2021**, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Fframweithiau Penderfyniadau Rheoli Heintiau COVID-19 lleol ar gyfer **ysgolion** a **cholegau**. Mae'r rhain yn nodi trefniadau ar gyfer darparu dysgu, gan alluogi ysgolion, colegau, darparwyr dysgu seiliedig ar waith a dysgu oedolion i deilwra ymyriadau i adlewyrchu risgiau ac amgylchiadau lleol. Daw'r fframweithiau yn sgil cyhoeddi **canllawiau gweithredol** ar **9 Gorffennaf 2021**.

Egwyddorion arweiniol Llywodraeth Cymru y tu ôl i'r fframweithiau yw:

- galluogi ysgolion i weithredu ar sail 'busnes fel arfer' cyn belled ag y bo'n bosibl;
- sicrhau'r deilliannau gorau i bob dysgwr drwy ystyried ei anghenion addysgol a'i les; a
- rheoli risgiau parhaus COVID-19 mor ddiogel â phosibl fel sy'n cael ei wneud ar gyfer heintiau eraill, a sicrhau bod y camau gweithredu i'w cymryd pe bai achos yn cael ei nodi mewn ysgol neu goleg yn glir.

Mae'r trefniant blaenorol, lle roedd dosbarthiadau cyfan, grwpiau blwyddyn neu 'swigod', fel roeddent yn cael eu galw, yn gorfod aros i ffwrdd o'r ysgol ar ôl un achos o ganlyniad positif, wedi dod i ben. Yn lle hynny, bydd y system Profi, Olrhain, Diogelu yn cael ei defnyddio i nodi cysylltiadau agos dysgwyr sydd wedi cael canlyniad positif, yn hytrach na bod y swigen gyfan yn gorfod peidio â mynd i'r ysgol.

2. Cyfnodau blaenorol o gau ysgolion

Bu dau gyfnod hir pan oedd ysgolion ar gau i ddisgyblion, ac eithrio disgyblion agored i niwed a phlant gweithwyr allweddol nad oedd dewis diogel arall ar gael iddynt:

- Rhwng 23 Mawrth 2020 tan ddechrau blwyddyn academiaidd 2021/22 ym mis Medi (heblaw am nifer o ddyddiau ym mis Gorffennaf i 'ailgydio, dal i fyny a pharatoi').

- Rhwng wythnos olaf tymor y Nadolig 2020 a'r Pasg 2021 (dychwelodd disgyblion sy'n fabanod ddiwedd mis Chwefror a disgyblion iau ganol mis Mawrth, ond ni ddychwelodd disgyblion ysgolion uwchradd tan ar ôl y Pasg os nad oeddent mewn grwpiau blwyddyn ag arholiadau).

[Sylwch fod ysgolion uwchradd wedi cau am wythnos ychwanegol ar ôl hanner tymor Hydref 2020 yn ystod cyfnod atal byr yn yr hydref. Mae dysgu wyneb yn wyneb wedi dod i ben am gyfnodau hefyd yn achos rhai disgyblion, er bod yr ysgolion hynny yn gyffredinol wedi bod ar agor, a hynny oherwydd bod 'swigod' neu grwpiau blwyddyn cyfan wedi gorfod dysgu gartref oherwydd achosion positif ymysg eu cyfoedion.]

3. Amseru 'cyfnodau atal byr' neu 'gyfyngiadau symud' a'r effaith ar athrawon a disgyblion

Fel y nodir yn llythyr y Gweinidog, roedd y penderfyniad i amseru'r cyfnod atal byr ym mis Hydref 2020 yn ystod hanner tymor ysgolion wedi'i ddylanwadu gan yr awydd i leihau'r tarfu ar addysg disgyblion. Mae'n nodi hefyd er bod Llywodraeth Cymru yn gobeithio gallu lleihau'r angen am gyfnodau atal byr yn y dyfodol yn ystod gwyliau ysgol, bydd yn rhaid gwneud penderfyniadau yn seiliedig ar lefelau trosglwyddiad COVID-19 a'r amodau ar y pryd o ran iechyd y cyhoedd.

Mae'n ymddangos bod y ddeiseb yn gofyn am gyflwyno cyfnodau atal byr neu gyfyngiadau symud, os ystyrir eu bod yn angenrheidiol, yn ystod tymhorau ysgol yn hytrach na gwyliau ysgol er mwyn gwarchod amser gwyliau a hamdden athrawon a disgyblion. Fodd bynnag, ni fyddai hyn yn fodd o sicrhau ein bod yn tarfu cyn lleied â phosibl ar addysg disgyblion.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn yn cael eu diweddarau o reidrwydd na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.



Eich cyf/Your ref P-06-1175
Ein cyf/Our ref JMEWL/10793/21

Jack Sargeant AS
Cadeirydd – Pwyllgor Deisebau
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN
Government.Committee.Business@llyw.cymru

17 Awst 2021

Annwyl Jack

Diolch am eich llythyr dyddiedig 22 Gorffennaf ar ran y Pwyllgor Deisebau ynghylch pryderon ymarferwyr am y posibilrwydd o gyfnodau atal byr cenedlaethol yn ystod gwyliau hanner tymor.

Fel y gwyddoch, mae'r cyfyngiadau coronafeirws ledled Cymru bellach yn cael eu llacio, ond diogelu pobl Cymru a gostwng cyfraddau trosglwyddo'r feirws COVID-19 yw ein blaenoriaeth o hyd, yn enwedig o ystyried datblygiad yr amrywiolyn Delta. Mae'n hanfodol ein bod yn ystyried ac yn gweithredu ar y cyngor gwyddonol a meddygol diweddaraf sydd ar gael i ni, a'r argymhellion a wneir gan ein Grŵp Cyngor Technegol. Felly rydym yn parhau i fonitro sefyllfa iechyd y cyhoedd yn ofalus, ac mae newidiadau i gyfyngiadau cenedlaethol a gweithrediadau ysgolion yn cael eu hystyried fel rhan o'n proses adolygu 21 diwrnod.

Ar 09 Gorffennaf cyhoeddais [ddatganiad ysgrifenedig](#) ar ein cynllun ar gyfer ysgolion a lleoliadau addysgol ar ôl gwyliau'r haf. Ysgrifennais hefyd at benaethiaid cyn diwedd tymor yr haf, ac fe gyhoeddais ddiweddariad o'r [Canllawiau Gweithredol](#) yn rhoi rhagor o fanylion. Disgwyliaf felly i staff ysgolion gael cyngor a gwybodaeth bellach am gynlluniau ar gyfer tymor yr hydref gan eu penaeithiaid eu hunain. Wrth symud ymlaen, ein bwriad yw cyhoeddi fframwaith gweithredol a chanllawiau ategol ddechrau mis Medi sy'n galluogi ysgolion a lleoliadau i deilwra rhai o'u mesurau ymyrryd i adlewyrchu lefel y risg a nodwyd yn lleol.

Rhannwyd y fframwaith drafft yn ddiweddar â'n partneriaid allweddol, megis Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Fforwm Partneriaeth Gymdeithasol Ysgolion a'r undebau i gael adborth cyn ei gyhoeddi. Bydd ysgolion a lleoliadau yn cael eu cefnogi gan swyddogion iechyd y cyhoedd a'u hawdurdodau lleol i

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jeremy.Miles@llyw.cymru
Correspondence.Jeremy.Miles@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.


We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

sicrhau bod mesurau COVID-19 yn briodol i'w hamgylchiadau eu hunain pan fydd dysgwyr a staff ysgol yn dychwelyd i sefydliadau addysg ar ôl gwyliau'r haf.

Rydym yn dal i fod mewn sefyllfa ddeinamig iawn o ran gweithrediad ysgolion, gyda phenderfyniadau y mae angen eu hystyried ochr yn ochr â thrafodaethau ehangach y Llywodraeth ar frechiadau i blant a phobl ifanc a'r rheolau newydd ar hunanynysu, a fydd hefyd yn effeithio ar hyn. Byddwn yn sicrhau bod y newidiadau yr ydym wedi'u gwneud yn cyd-fynd â'r penderfyniad i lacio'r cyfyngiadau yng Nghymru yn ehangach. Rydym hefyd wedi cydnabod yr angen i symud tuag at ddull mwy lleol sy'n caniatáu i ysgolion fod yn hyblyg ac ymateb i amgylchiadau a materion iechyd y cyhoedd sy'n codi yn eu hardal. Disgwyliwn i'r dull hwn leihau ar unrhyw darfu diangen ar gyfleoedd dysgu yn y dyfodol.

Rwy'n llwyr werthfawrogi pa mor ymroddedig yw ein gweithlu addysg a pha mor galed y maent wedi gweithio, yn arbennig yn ystod y pandemig. Fodd bynnag, fel y byddwch yn deall, yn aml mae angen i ni ymateb i sefyllfaoedd sy'n newid yn gyflym mewn perthynas â throsglwyddiad y coronafeirws, ac er y byddem yn gobeithio gallu cyfyngu ar unrhyw alw am gyfnodau atal byr yn ystod gwyliau'r ysgol yn y dyfodol, ni allaf warantu na fydd hyn yn angenrheidiol yn y dyfodol. Gwyddom hefyd am yr effaith hir y mae colli ysgol yn ei chael ar ein plant a'n pobl ifanc a dyma'r rheswm, pan fu angen cyfnod atal byr yn y gorffennol, dros eu cynnal yn ystod gwyliau hanner tymor er mwyn tarfu cyn lleied â phosibl ar addysg disgyblion.

Yn gywir



Jeremy Miles AS/MS

Gweinidog y Gymraeg ac Addysg

Minister for Education and Welsh Language

Jane Hutt AS/MS
Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol
Minister for Social Justice



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-06-1176
Ein cyf/Our ref JH-/10314/21

Jack Sargeant MS
Chair - Petitions committee
Senedd Cymru
Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1SN
Government.Committee.Business@gov.wales

17 August 2021

Dear Jack,

Thank you for your letter of 22 July regarding the petition asking the Welsh Government to introduce a Dignity Charter of Cymru.

This would be a cross government initiative covering areas such as health, social care and wellbeing as well as equality and nation of sanctuary, and could be something worth exploring further.

Considerable work is already underway across Government and our ambition for the future is a Wales where everyone is included and no-one is held back or left behind. Only then will we live in a truly fair and equal Wales. With that in mind, the Strengthening and Advancing Equality and Human Rights in Wales Research report, which is due to be published shortly, will help inform the Welsh Government's future work in relation to safeguarding and promoting equality and human rights of individuals and communities in Wales.

The voting franchise in Wales has recently been extended to allow 16 and 17 year olds to vote in Senedd and local government elections. We are supporting the extension of the franchise by providing education resources. These resources aim to inspire young people to discuss and debate what they care about, and make the connection between this and politics. The resources will increase young people's understanding of politics at a local and national level, of the political institutions that serve them and how they interact with each other.

Officials have worked closely with WJEC to produce a teaching and learning resource pack for KS4 Welsh Baccalaureate students as part of the Global Citizenship Challenge. We are

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Jane.Hutt@llyw.cymru
Correspondence.Jane.Hutt@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Tudalen y pecyn 79

also working on developing professional learning resources to support teachers to deliver political education. This approach supports the delivery of political education in schools in line with the principles of the new curriculum. The new curriculum, through the Humanities Area of Learning and Experience, aims to give learners an understanding of historical, geographical, political, economic and societal issues and provides opportunities to develop and engage in informed discussions about ethics, beliefs, religion and spirituality.

The new curriculum will help to develop a generation of politically engaged and informed young people who are ethical, informed citizens of Wales and the world. The Welsh Government is also working with the Politics Project, a third sector organisation, to run a pilot scheme in Wales. This project connects schools with either their local councillor or MS. It supports engagement between the representative and the schools encouraging young people to take a scrutiny role and discuss those issues important to them with decision makers.

The Local Government and Elections (Wales) Act provides a legislative framework to reform and strengthen local authority democracy, accountability, collaboration and performance. We are working towards the introduction of a Democracy Handbook which will bring together guidance for local government underpinning the themes and actions related to greater transparency. This work will be undertaken in two phases, the first of which will be to map the current and intended guidance for inclusion within the handbook. The second phase will focus on the development, alongside partners, of the guidance itself in readiness for May 2022. A fundamental part of this development is to ensure diversity and equality is considered and included throughout the guidance.

We want to ensure democracy is equal to all areas in Wales and provide role models and structures so that the citizens of Wales are able to become involved in their local and national democracy.

On the international front, our International Strategy, published in January 2020, sets out our ambitions to establish Wales as a globally responsible nation to make us more competitive and well known and a trusted partner on the global stage to bring benefit to the people of Wales. We want to be considered amongst the world's most globally responsible nations, building on long traditions of internationalism and concern for fairness and a focus on people and planet.

Since 2015, our sustainable development legislation has stimulated both action and discussion about how we transform Wales into a more sustainable nation. We established the world's first statutory independent Future Generations Commissioner for Wales to be an advocate for the long term and to support decision-makers in Wales.

I hope you find this helpful.

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Jane', with a horizontal line above it.

Jane Hutt AS/MS

Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol
Minister for Social Justice

Darparu cynhyrchion mislif yn rhad ac am ddim i bob person sy'n cael mislif yng Nghymru

Y Pwyllgor Deisebau | 13 Medi 2021
Petitions Committee | 13 September 2021

Cyfeirnod: SR21/00497

Rhif y ddeiseb: P-06-1177

Teitl y ddeiseb: Darparu cynhyrchion mislif yn rhad ac am ddim i bob person sy'n cael mislif yng Nghymru

Geiriad y ddeiseb:

Nid yw'r £3.1 miliwn a ddarperir i ysgolion yng Nghymru i brynu cynhyrchion mislif yn ddigon i gadw pob merch ifanc allan o dlodi mislif ac mewn addysg. A minnau wedi profi embaras mislif yn uniongyrchol, gwn sut deimlad yw eistedd drwy wers, yn gwaedu drwy fy nghynnyrch mislif oherwydd bod gen i ormod o gywilydd gofyn i ffrind, neu athro, a gawn fenthyg y cynnyrch ganddyn nhw. Mae angen inni roi terfyn ar y stigma o ran y mislif, a rhoi cynhyrchion mislif am ddim i bob merch. Ni all 1 o bob 10 merch 14-21 oed yn y DU fforddio cynhyrchion mislif. Mae 49 y cant o ferched wedi colli diwrnod ysgol oherwydd hyn. Mae merched ifanc yn peryglu eu hiechyd corfforol drwy wneud cynhyrchion mislif eu hunain o hancesi papur, sanau a bagiau plastig. Nid problem i ferched ifanc yn eu harddegau yn unig mo hon. Mae 56 y cant o ferched ifanc 18-24 oed wedi gorfod mynd ddiwrnod heb gynhyrchion mislif hanfodol, neu ddefnyddio llai ohonynt oherwydd prinder arian. Mae llawer o fenywod yn teimlo cywilydd oherwydd eu mislif, ac maen nhw hyd yn oed yn teimlo cywilydd ynglŷn â phrynu cynhyrchion mislif angenrheidiol iddyn nhw'u hunain. Mae'r cywilydd hwn yn hynod niweidiol gan ei fod yn atal sgysiau angenrheidiol am y mislif, sy'n arwain at ddiffyg gwybodaeth am eu goblygiadau yn y pen draw. Er enghraifft, diffyg lleddfu poen cramp mislif effeithiol, sy'n gallu arwain at effaith ar y gallu i weithio yn yr ystafell ddosbarth.



1. Cefndir

Thlodi mislif yw diffyg mynediad at gynhyrchion mislif oherwydd cyfyngiadau ariannol. Mae urddas yn ystod y mislif yn ymwneud â mynd i'r afael â thlodi mislif, gan hefyd sicrhau bod cynhyrchion ar gael yn rhad ac am ddim ac yn hygyrch i bawb sy'n cael mislif yn y ffordd fwyaf ymarferol ac urddasol.

Mewn arolwg a gynhaliwyd yn 2017 gan Plan International UK, sef elusen blant fyd-eang, canfu, o blith 1000 o fenywod rhwng 14 a 21 oed, fod 10 y cant ohonynt yn methu â fforddio cynhyrchion mislif. Dywedodd Lucy Russell, Rheolwr Ymgyrchoedd y DU:

Distributing products at school, including reusables, could play a role in ensuring that no girl struggles to afford sanitary wear.

Mewn arolwg arall gan Plan International UK yn ystod y cyfnod clo COVID-19 cyntaf yn 2020, canfu bod gan 30 y cant o ferched 14-21 oed broblemau gyda naill ai fforddio neu gael gafael ar gynhyrchion mislif yn ystod y cyfyngiadau. Dywedodd Plan International UK ei fod yn croesawu sicrhau bod cynhyrchion mislif ar gael yn rhad ac am ddim mewn ysgolion ond, gydag ysgolion a chanolfannau ieuencid ar gau yn ystod y cyfyngiadau symud, roedd llawer o ferched wedi'u gadael heb wybod ble i gael gafael ar adnoddau am ddim.

Yn flaenorol ledled y DU, ychwanegwyd TAW o 5 y cant ar gynhyrchion mislif, gan gynnwys tamponau, padiau a thywelion. Fe wnaeth Llywodraeth y DU gael gwared ar y "dreth tampon", fel y'i gelwir, ar ddechrau 2021.

Yn 2020, yr Alban oedd y wlad gyntaf yn y byd i sicrhau bod cynhyrchion mislif ar gael yn rhad ac am ddim.

2. Camau gweithredu gan Lywodraeth Cymru

Ar 23 Mawrth 2018, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru £1 miliwn o gyllid newydd i fynd i'r afael â thlodi mislif ac urddas o ran mislif yng Nghymru. Dyrannwyd £440,000 dros ddwy flynedd i awdurdodau lleol fynd i'r afael â thlodi mislif mewn cymunedau lleol, gyda £700,000 o arian cyfalaf ychwanegol ar gael i wella cyfleusterau ac offer mewn ysgolion. Dywedodd Julie James, sef Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip ar y pryd:

It is unacceptable that some women and girls in Wales cannot afford to buy essential feminine hygiene products when they need them. I am committed to doing everything I can to tackle this inequality.

Ar **5 Mawrth 2019**, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y bydd cynhyrchion hylendid rhad ac am ddim yn cael eu cynnig mewn ysbytai yng Nghymru. Dywedodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar y pryd, Vaughan Gething:

Ar hyn o bryd, mae'r ddarpariaeth o gynhyrchion misglwyf ar gyfer cleifion mewnol mewn ysbytai yn amrywio ledled Cymru, gan fod gan bob bwrdd iechyd ei bolisi ei hun. Rwyf am sicrhau bod pob menyw sy'n mynd i ysbyty yng Nghymru yn gallu cael y cynhyrchion hanfodol hyn.

Cyhoeddwyd **Grant Urddas yn ystod Mislif i Ysgolion** ar 15 Ebrill 2019 gan y Prif Weinidog, a oedd yn cynnwys £2.3 miliwn o gyllid i ddarparu ystod o gynhyrchion mislif i ddisgyblion yn ysgolion cynradd ac uwchradd Cymru. Byddai'r grant yn darparu ystod o gynhyrchion mislif i dros 141,000 o ferched.

Dywedodd Mark Drakeford, y Prif Weinidog:

Mae'n hanfodol sicrhau bod digon o eitemau ar gyfer y mislif, yn ogystal â chyfleusterau da, ar gael i bob merch er mwyn iddyn nhw reoli eu mislif â hyder a goresgyn unrhyw rwystrau diangen i'w haddysg.

Fel rhan o'r Grant Urddas yn ystod Mislif, anogwyd ysgolion i ddefnyddio cynhyrchion amgylcheddol gynaliadwy y gellir eu haildefnyddio, er mwyn rhoi cymaint o ddewis â phosibl i ddysgwyr.

Ym mis **Rhagfyr 2019** ymrwymodd Llywodraeth Cymru gyllid i fynd i'r afael â thlodi mislif, gyda £3.3 miliwn wedi'i neilltuo ar gyfer 2020-21. Sicrhawyd bod £3.1 miliwn ar gael i ysgolion cynradd ac uwchradd a cholegau i ddarparu cynhyrchion mislif rhad ac am ddim i fyfyrwyr a allai fod eu hangen. Yn ogystal â hynny, ymrwymodd Llywodraeth Cymru i barhau i ddarparu £220,000 i awdurdodau lleol i ddarparu cynhyrchion mislif yn rhad ac am ddim mewn adeiladau cyhoeddus, fel llyfrgelloedd, a bydd awdurdodau lleol yn gallu penderfynu sut maent yn defnyddio'r arian hwnnw yn eu hardaloedd lleol. Dywedodd Jane Hutt, y Dirprwy Weinidog a'r Phrif Chwip ar y pryd:

Rydyn ni wedi gwneud cynnydd sylweddol gyda mynd i'r afael â thlodi mislif yn 2019 a bydd y cyhoeddiad yma am £3.1m o gyllid ar gyfer 2020-21 yn golygu y gallwn ni barhau i sicrhau urddas y mislif i bob menyw a merch yng Nghymru drwy ddarparu cynhyrchion a chyfleusterau priodol.

3. Camau gweithredu Senedd Cymru

Cynhaliwyd dadl yn y Senedd a phasiwyd [cynnig ar 2 Mai 2018](#) ar dlodi mislif a stigma, a gyflwynwyd gan Jane Hutt a Jenny Rathbone. Roedd y cynnig yn galw ar Lywodraeth Cymru i ystyried y gwaith ymchwil ar yr effaith bosibl ar ddysgu yn sgil tlodi mislif a'r stigma, i wella addysg ar y pwnc ac i roi eitemau mislif am ddim mewn sefydliadau addysg a thrwy fanciau bwyd.

Ar 12 Chwefror 2019, trafododd y Pwyllgor Deisebau ddeiseb a gyflwynwyd gan [Sefydliad y Merched Malpas](#) a oedd yn galw am ddarparu cynhyrchion hylendid am ddim i bob menyw mewn cartrefi incwm isel.

4. Camau gweithredu ar draws y DU

Cyflwynodd Llywodraeth y DU gynllun cynhyrchion mislif i ddarparu cynhyrchion mislif yn rhad ac am ddim i bob dysgwr yn 2019. Mae'r [canllawiau](#) diweddaraf (16 Rhagfyr 2020) yn nodi y bydd pob dysgwr mewn ysgolion gwladol a sefydliadau addysg i bobl ifanc 16 i 19 oed yn Lloegr yn parhau i gael mynediad at gynhyrchion mislif rhad ac am ddim yn eu man astudio yn 2021.

Cyflwynodd [Senedd yr Alban gyfraith](#) (12 Ionawr 2021) sy'n sicrhau bod cynhyrchion mislif ar gael am ddim i bobl sydd eu hangen. O dan y Bil, rhaid i ysgolion, colegau a phrifysgolion sicrhau bod amrywiaeth o gynhyrchion mislif ar gael yn rhad ac am ddim yn eu toiledau.

[Cymeradwyodd gweithrediaeth Gogledd Iwerddon gynllun peilot](#) (17 Rhagfyr 2020) i sicrhau bod cynhyrchion mislif ar gael am ddim i ddisgyblion mewn ysgolion cynradd ac uwchradd. Rhagwelir y bydd y cynllun peilot tair blynedd yn costio £2.6 miliwn. Dywedodd y Gweinidog Addysg, Peter Weir:

Providing free period products will help pupils manage their periods confidently as school, reduce anxiety and stress and enable students to focus on their learning.

Ym mis [Mai 2021](#), cyhoeddodd Diane Dodds, Gweinidog Economi Gogledd Iwerddon, gynllun peilot blwyddyn o hyd i ddarparu cynhyrchion mislif yn rhad ac am ddim i fyfyrwyr prifysgol. Dywedodd y Gweinidog:

This issue has the potential to seriously impact on students in higher education. Preventing attendance at classes, work placements, and even examinations could seriously hamper an individual's chances of successful completion of their course.

Bydd y cynllun peilot yn cael ei gynnal yn ystod y flwyddyn academaidd ar gyfer myfyrwyr sy'n mynychu Prifysgol Ulster, Prifysgol y Frenhines Belffast, Coleg Prifysgol Stranmillis a Choleg Prifysgol y Santes Fair.

5. Ymateb Llywodraeth Cymru i'r ddeiseb

Ymatebodd Jane Hutt AS, y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol, i'r ddeiseb ar 6 Awst 2021.

Amlygodd fod Rhaglen Lywodraethu 2021 - 2026 Llywodraeth Cymru yn cynnwys ymrwymïadau i ymgorffori urddas yn ystod y mislif mewn ysgolion ac ehangu'r ddarpariaeth rad ac am ddim ar gyfer y mislif mewn cymunedau a'r sector preifat.

Dywedodd y Gweinidog fod gwaith wedi cychwyn ar ddrafft o Gynllun Gweithredu Strategol Urddas yn ystod Mislif, ond y gohiriwyd ei gyhoeddi oherwydd pandemig COVID-19. Disgwylir i gynllun diwygiedig gael ei gyhoeddi ar gyfer cynnal ymgynghoriad arno yn nes ymlaen eleni.

The Plan will include a wide range of actions linked to education, health, tackling period poverty, access to appropriate facilities and environmental issues. It will aim to tackle the stigma, myths, misunderstandings and lack of knowledge which persist as this will be key to ensuring people understand periods, are confident to talk about them and seek help or advice when needed, whether they have periods or not.

Eglurodd y Gweinidog y byddai'n croesawu barn y deisebydd fel rhan o'r broses o ymgynghori ar y Cynllun Gweithredu Strategol ar Urddas yn ystod y Mislif yn yr hydref.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn yn cael eu diweddarau o reidrwydd na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.



Eich cyf/Your ref: P-06-1177
Ein cyf/Our ref: JH-/10313/21

Jack Sargeant AS
Cadeirydd – Y Pwyllgor Deisebau
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

Government.Committee.Business@llyw.cymru

6 Awst 2021

Annwyl Jack,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 22 Gorffennaf ynghylch Deiseb P-06-1177: Darparu cynhyrchion mislif yn rhad ac am ddim i bob person sy'n cael mislif yng Nghymru.

Mae tlodi mislif ac urddas mislif yn faterion pwysig sy'n effeithio, yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol, ar fywydau cynifer o bobl ledled Cymru. Ers gormod o amser, mae cael mislif wedi golygu bod rhai pobl yn methu ag elwa ar addysg, cyflogaeth neu weithgareddau cymdeithasol. Gall effeithio ar iechyd corfforol neu feddyliol. Mae hyn yn annerbyniol.

Mae'r mislif yn parhau i fod yn bwnc sy'n cael ei gamddeall yn aml. Nid yw'n cael ei drafod ac fe'i cysylltir â gwaradwydd, mythau ac embaras. Rydym yn gweithio i newid hyn. Mae ein Rhaglen Lywodraethu yn cynnwys ymrwymiadau i sefydlu urddas mislif mewn ysgolion ac i ehangu'r ddarpariaeth nwyddau mislif am ddim mewn cymunedau a'r sector preifat. Mae hyn yn dangos ein hymrwymiad parhaus i fynd i'r afael â'r mater hwn ac yn adeiladu ar y gwaith rydym wedi bod yn ei wneud dros y blynyddoedd diwethaf.

Rydym wedi darparu cyllid i fynd i'r afael â thlodi mislif ac urddas mislif ers 2018 ac ar hyn o bryd rydym yn darparu dros £3.3miliwn y flwyddyn i sicrhau bod nwyddau mislif am ddim ar gael mewn ysgolion, colegau addysg bellach a chymunedau ledled Cymru.

Gofynnwn i nwyddau mislif fod ar gael yn y ffordd fwyaf urddasol bosibl i sicrhau y gellir osgoi sefyllfaoedd fel yr un a ddisgrifiwyd gan y deisebydd, pan fo raid i unigolyn ofyn am nwyddau mislif, pryd bynnag y bo modd. Nid ydym wedi bod yn gorchymyn yn union sut y dylid cyflawni hyn ac rydym yn gwybod bod amrywiaeth o ddulliau'n cael eu defnyddio ledled Cymru sy'n cynnwys, er enghraifft, peiriannau dosbarthu nad ydynt yn gofyn am arian

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Jane.Hutt@llyw.cymru
Correspondence.Jane.Hutt@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Tudalen y pecyn 86
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

mân a gwasanaethau tanysgrifio lle caiff nwyddau eu hanfon yn uniongyrchol i gyfeiriad cartref unigolyn.

Rydym hefyd yn defnyddio'n cyllid i symud tuag at nwyddau mislif y gellir eu haildefnyddio a rhai di-blastig. Mae hwn yn fesur cymharol fach a allai gael effaith amgylcheddol bwysig. Mae newid o'r fath yn aml yn cymryd amser ond mae'r cynnydd rydym eisoes wedi'i wneud yn y maes hwn yn dangos bod galw amlwg am gael dewis o nwyddau ecogyfeillgar.

Er bod darparu nwyddau am ddim i'r rhai mwyaf anghenus yn gam cyntaf hanfodol tuag at fynd i'r afael â thlodi ac urddas mislif, gwn fod rhagor o waith i'w wneud.

Rwy'n cadeirio'r Ford Gron ar Urddas Mislif sy'n cynnwys rhanddeiliaid o'r sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector ledled Cymru. Mae gwaith y grŵp wedi bod yn werthfawr tu hwnt gan ei fod yn ei gwneud yn bosibl i Lywodraeth Cymru glywed yn uniongyrchol gan y bobl sy'n gweithio ar lawr gwlad ledled Cymru - i glywed beth yw'r problemau, i ddysgu mwy am yr hyn sy'n gweithio'n dda a'r hyn y gallem wella arno.

Y llynedd, cyn y pandemig, cynhaliodd swyddogion Llywodraeth Cymru weithdy gydag amrywiaeth o randdeiliaid, gan gynnwys aelodau o'r Ford Gron ar Urddas Mislif, i lywio polisi yn y dyfodol. Ar sail hynny, dechreuwyd datblygu Cynllun Gweithredu Strategol drafft ar gyfer Urddas Mislif. Yn anffodus, tarfwyd ar y gwaith terfynol ar y cynllun gan Covid-19 ac fe'i gohiriwyd. Mae fy swyddogion bellach yn gweithio'n gyflym i adolygu'r cynllun a'i gyhoeddi ar gyfer ymgynghoriad yn ddiweddarach eleni.

Mae'n hanfodol bod y Cynllun Gweithredu Strategol yn nodi dull gweithredu Llywodraeth Cymru o ran sicrhau urddas mislif yng Nghymru a bod y Cynllun wedi'i wreiddio mewn ymrwymiad i weithio ar draws y Llywodraeth, a chyda rhanddeiliaid, i ddatblygu a chyflwyno cyfres o gamau gweithredu eang, cyfannol sy'n croestorri â'i gilydd.

Mae darparu nwyddau am ddim yn yr amrywiaeth fwyaf eang bosibl o leoliadau yn rhan bwysig o'n gweledigaeth gan fod hyn yn helpu i sicrhau bod nwyddau ar gael pryd bynnag y bo angen. Fodd bynnag, gwyddom na fyddwn yn gallu symud tuag at urddas mislif heb fynd i'r afael ag amrywiaeth ehangach o broblemau. Bydd y Cynllun yn cynnwys amrywiaeth eang o gamau gweithredu sy'n gysylltiedig ag addysg, iechyd, mynd i'r afael â thlodi mislif, mynediad at gyfleusterau priodol a materion amgylcheddol. Bydd yn anelu at fynd i'r afael â'r gwaradwydd, y mythau, y camddeall a'r diffyg gwybodaeth sy'n parhau gan y bydd hyn yn hollbwysig o ran sicrhau bod pobl yn deall y mislif, yn hyderus i siarad amdano ac i chwilio am gymorth neu gyngor pan fo angen, p'un a ydynt yn cael mislif ai peidio.

Byddwn yn croesawu barn y deisebydd fel rhan o'r ymgynghoriad ar Gynllun Gweithredu Strategol Urddas Mislif yn yr hydref.

Yn gywir,



Jane Hutt AS/MS

Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol
Minister for Social Justice

Prydau ysgol am ddim i bob disgybl

Y Pwyllgor Deisebau | 13 Medi 2021
Petitions Committee | 13 September 2021

Cyfeirnod: RS21/0497-8

Rhif y ddeiseb: P-06-1178

Teitl y ddeiseb: Prydau ysgol am ddim i bob disgybl yng Nghymru

Geiriad y ddeiseb: Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i gymryd y camau a ganlyn ar unwaith

- Diwygio'r meini prawf cymhwyster ar gyfer Prydau Ysgol am Ddim fel bod unrhyw blentyn mewn unrhyw deulu sy'n cael y Credyd Cynhwysol neu gyfwerth yn gymwys.
- Ymestyn yn barhaol yr hawl i deuluoedd sy'n methu cael arian cyhoeddus gael prydau ysgol am ddim.
- Cyflwyno prydau ysgol am ddim i bob disgybl ysgol fabanod

Fel y cam cyntaf tuag at ddarparu prydau ysgol maethlon am ddim i bob disgybl o oedran ysgol yng Nghymru.



1. Ymgyrch i ymestyn meini prawf cymhwysedd, a chyddestun y pandemig COVID-19

Mae'r mater o gymhwysedd o ran prydau ysgol am ddim wedi cael cryn sylw yn ystod y flwyddyn a hanner ddiwethaf, yn rhannol o ganlyniad i'r pandemig. Mae [Llywodraeth Cymru wedi darparu cyllid](#) yn ystod y pandemig i alluogi awdurdodau lleol i barhau i ddarparu prydau ysgol am ddim yn ystod gwyliau ysgol. Bydd hyn yn para hyd at y Pasg 2022.

Bu ymgyrch i ymestyn cymhwysedd am brydau ysgol am ddim i bob disgybl sy'n byw mewn teuluoedd sy'n cael Credyd Cynhwysol ac o bosibl i bob disgybl. Mae'r Grŵp Gweithredu ar Dlodi Plant ([papur briffio ym mis Hydref /mis Rhagfyr 2020](#) ac [adroddiad ym mis Awst 2021](#)) a Sefydliad Bevan ([costau](#) ac [ystyriaethau ymarferol](#)) wedi cyhoeddi adroddiadau ar hyn.

Mae diben deublyg i brydau ysgol am ddim yn bennaf. Yn gyntaf, osgoi caledi ariannol i deuluoedd a darparu pryd o fwyd i blant na all eu teulu ei fforddio'n hawdd, ac yn ail i gefnogi eu canlyniadau addysgol. Mae'r dystiolaeth yn gymharol gymysg o ran buddion prydau ysgol am ddim o ran cyrhaeddiad addysgol, fel y mae'r erthygl ['Ffeithiau Llawn'](#) hon a gyhoeddwyd yn 2017 yn egluro.

2. Camau gan Lywodraeth Cymru

Mae [Rhaglen Lywodraethu 2021-26](#) Llywodraeth Cymru yn cynnwys ymrwymiad i:

Parhau i fodloni'r cynnydd yn y galw am Brydau Ysgol Am Ddim sy'n deillio o'r pandemig ac yn adolygu'r meini prawf cymhwysedd, gan ymestyn yr hawl cyn belled ag y mae adnoddau'n caniatáu.

Mae llythyr y Gweinidog yn dweud bod **yr adolygiad hwn bellach wedi dechrau**, a dechreuwyd ar y gwaith o gasglu data a nodi ei strwythur a'i gwmpas, ac ystyriwyd gwaith ymchwil a thystiolaeth. Dywedodd y Gweinidog wrth y [Senedd ar 14 Gorffennaf](#) ei fod **yn disgwyl i'r adolygiad gael ei gwblhau yn yr hydref**, a bydd yn darparu diweddariad i'r Aelodau ar ddechrau tymor newydd y Senedd ym mis Medi.

O ran y cwestiwn ysgrifenedig [WQ81850](#), cyhoeddodd Kirsty Williams, y Gweinidog Addysg ar y pryd, rai [amcangyfrifon o gostau](#) ymestyn cymhwysedd prydau ysgol am ddim i bob plentyn mewn cartrefi sy'n cael Credyd Cynhwysol, yn ogystal â phob disgybl ysgol gynradd. Roedd y rhain yn seiliedig ar niferoedd a oedd yn cael prydau ysgol am ddim yn 2020 (nodwch fod y rhain wedi cynyddu yn 2021).

3. Camau gweithredu Senedd Cymru

Cafwyd dadl dan arweiniad Plaid Cymru ar brydau ysgol am ddim yn y Cyfarfod Llawn ar 14 Gorffennaf 2021

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn yn cael eu diweddarau o reidrwydd na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.

Jeremy Miles AS/MS
Gweinidog y Gymraeg ac Addysg
Minister for Education and Welsh Language



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf P-06-1178
Ein cyf JMEWL/10796/21

Jack Sargeant AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau
Senedd Cymru
Government.Committee.Business@llyw.cymru

8 Awst 2021

Annwyl Jack

Diolch am eich llythyr dyddiedig 22 Gorffennaf ynghylch Deiseb P-06-1178 (Prydau ysgol am ddim i bob disgybl yng Nghymru)

Mae darparu prydau ysgol am ddim yn parhau i fod yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru, ac rydym wedi ymrwmo i sicrhau bod y dysgwyr mwyaf anghenus yn parhau i elwa ar y ddarpariaeth hon. Mae'n Rhaglen Llywodraethu yn cynnwys ymrwymiad i barhau i adolygu'r meini prawf cymhwysedd ar gyfer prydau ysgol am ddim, er mwyn estyn yr hawl cyn belled ag y mae adnoddau'n caniatáu. Ers dechrau'r pandemig, mae nifer y ddysgwyr sy'n derbyn prydau ysgol am ddim wedi cynyddu'n gyson.

Mae data diweddaraf y Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) 2021 yn dangos bod 108,203 o ddisgyblion yn gymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim. Dyma gynnydd o bron 18,000 o ddisgyblion ers i ddata CYBLD 2020 ddangos bod 90,662 o ddisgyblion yn gymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim. Mae'r cynnydd hwn yn pwysleisio'r angen i adolygu'r meini prawf cymhwysedd ar gyfer cael prydau ysgol am ddim. Rwy'n falch iawn o ddweud ein bod, erbyn hyn, wedi dechrau ar y gwaith o gasglu data, a gosod strwythur a chwmpas i'r adolygiad, sy'n cynnwys rhoi ystyriaeth ofalus i'r ymchwil a'r dystiolaeth, fel yr ymchwil a gomisiynwyd gan Sefydliad Bevan a Chynghrair Gwrthdodi Cymru. Bydd cwmpas yr adolygiad yn cynnwys teuluoedd tlawd, heb unrhyw hawl i gronfeydd cyhoeddus.

Ar ôl dychwelyd ym mis Medi, byddaf yn darparu diweddariad ar gynnydd yr adolygiad, yn ogystal ag amserlen ar gyfer cwblhau'r gwaith.

Yn gywir,

Jeremy Miles AS/MS
Gweinidog y Gymraeg ac Addysg
Minister for Education and Welsh Language

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Jeremy.Miles@llyw.cymru
Correspondence.Jeremy.Miles@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**P-06-1178 Free school meals for all pupils in Wales, Correspondence –
Petitioner to Committee, 25.08.21**

To: Jack Sargeant MS Chair - Petitions committee
25 August 2021

Dear Jack Sargeant MS

As the originator of the e Petition P-06-1178 (Free school meals for all pupils in Wales) I would very much appreciate it if you could place this response before your Committee to consider as a response to the letter to you from the Minister of Education Jeremy Miles MS dated 8 August 2021.

The People's Assembly Wales which supported the petition has been in communication with the Senedd Labour Group. Our most recent letter to the Group is in this link and it provides in some detail a response to the points made in the Minister's letter:

https://docs.google.com/document/d/1ClwJY68a_eyeazf2aeArQDeMt6CQXqY/edit?usp=sharing&oid=109831181562023645185&rtpof=true&sd=true

As the People's Assembly Wales state in this letter to the Senedd Labour Group they are concerned that the policy of free school meals becomes 'the' priority of the Welsh Government in combating family and child poverty and not just 'a' priority among others. As Previous Senedd reports and the charities mentioned in the Ministers letter have already pointed out, this provision is the most effective way of reducing this experience of poverty which rose by 3% in Wales in 2020.

The Minister places considerable emphasis on the review of eligibility that is taking place. I welcome this review which has been promised from before the May Senedd elections. The Minister's letter makes reference to the increase demand for free school meals under the existing eligibility criteria; the way this is worded is potentially worrying as it could imply that there is a view that the costs need to be constrained by reducing eligibility, we hope the Petition Committee can secure a response from the Minister confirming that this is not the intention and is not part of the terms of reference for the review.

Having said that, it appears that the review focus will be largely on the cost of providing free school meals to all in families in receipt of UC and without recourse to public funds. I also hope that the cost of universal free school meals will be explored as well and would ask that the Petitions Committee put this request to the Minister.

Janet Finch-Saunders AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deisebau

24 Mawrth 2021

Annwyl Janet,

Diolch ichi am eich llythyr pellach dyddiedig 16 Chwefror ar ran y Deisebwr mewn perthynas â Deiseb P-05-1045 ynghylch penderfyniadau ar y cyd ac adolygiadau o gynlluniau gofal iechyd meddwl misol.

Bydd y sylwadau a'r cynigion ychwanegol sydd wedi dod i law yn parhau i lywio ein gwaith fel yr eglurwyd yn ein hymateb blaenorol. Byddwn hefyd yn rhannu'r wybodaeth hon ag arweinwyr ein rhaglen iechyd meddwl er mwyn cefnogi eu gwaith hwythau.

Hefyd hoffem eich sicrhau y bydd yr holl waith yn y maes hwn yn y dyfodol yn ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr, y mae profiadau perthnasol yn rhan o'u bywydau, er mwyn iddynt gael y cyfle i lywio ymateb parhaus ein polisïau. Hefyd hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i ail-bwysleisio pa mor bwysig yw hi bod y deisebwr yn trafod ei bryderon yn uniongyrchol gyda'i fwrdd iechyd i sicrhau bod yr ymchwiliadau i'r digwyddiad hwn yn rhoi ystyriaeth lawn i'w brofiadau.

Diolch ichi unwaith yn rhagor am ysgrifennu ataf ynghylch y mater hwn.

Yn gywir,

Vaughan Gething AS/MS
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru
Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

P-05-1045 To make shared-decision making and monthly mental health care-plan reviews a legal requirement, Correspondence – Petitioner to Committee, 24.08.21

Additional comments in relation to Petition P-05-10 45: to make shared decision making and monthly mental health care-plan reviews a legal requirement.

In addition to previous notes given to the committee on the 01.02.2021, we wish to provide further comments in relation to the petition at hand and in response to the letter received from the Minister for Health and Social Services Vaughan Gething.

We are not satisfied with the responses from the Minister as we although it is encouraging that this issue is being investigated, we believe that without this being a legality – the issue will get swept under the carpet in day-to-day practice and be forgotten as it has previously. As stated in our first response given to the committee, the NICE guidelines are for Care and Support Plans to be reviewed monthly – however as we all know, this is a guideline. Due to the mental health services currently being so overwhelmed, this is a priority for the staff members and therefore this vital part of individual's care is being ignored as it is not a legality. Clinicians will not prioritise this work as we can evidence.

Additionally, there has not been a specific response in relation to ensuring that patients and their families are given the opportunity to consider and put forward suggestions during the Care and Support Plan review and again for this to be a requirement. Similarly, as the overworked staff members try to complete a Care and Support Plan – the quickest and easiest way to do this is by doing it themselves and not in collaboration with the service user and their family and this is more time consuming and again, this is not being done.

I fear that without creating a formality/requirement to complete regular care-plan reviews, as well as a requirement for the comments of the service user and their family – the service users will not be given this opportunity since it is not a legality, so it is unlikely to be prioritised. We believe that no matter what recommendations or guidelines are put in place – Care and Support plan reviews will not be completed with the service user and their family due to the time this will take. It is simply easier for it to be completed quickly and without consultation to save time. However, in doing this they are taking away the patient's autonomy and their right to have a say in their treatment. Also potentially not giving the right support at the right time, resulting in the patient receiving support and care that they do not want or will not engage with – only to be bounced to a different service later, putting more strain on the services. It is about giving the right support at the right time and this can only be achieved by consulting the service user regularly and ensuring the support they are receiving is right for them, as well as hearing from their family – the ones who know them the best.

I feel further investigation and research needs to be carried out so that the Minister for Mental Health can see the sheer amount of service users who have no say at all in their

23.08.2021

care, and their wishes and requests are being ignored. Resulting in more strain on crisis services and wider. I feel the committee or those responsible need to take time to speak with service users or complete a survey to understand how often the average service user is offered a Care Plan review and how much say they and their family have on their care. This will open your eyes to just how irregular this is and why we are so passionate about making this change. The service users themselves are the ones with the knowledge and truth of their experiences, so I urge you to use them as a resource to find out just how much a change like this would mean to them.

We would also like to note, that we would be happy to meet with the committee on Zoom or wherever is convenient to discuss this further and encourage any specific questions the committee might have.

Many thanks,

Tesni Morgan

Eitem 3.6

P-05-1062 Rhoi'r gorau i'r prawf rt-PCR i brofi ar gyfer COVID-19, gan nad yw'n addas i'r diben

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Robert O'Shea, ar ôl casglu cyfanswm o 96 lofnodion.

Geiriad y ddeiseb:

Mae wedi dod i'r amlwg mai dim ond chwyddiad 35x a ddefnyddiodd y GIG ar brofion PCR cyn y pandemig honedig. Erbyn hyn, fodd bynnag, mae'r GIG yn defnyddio chwyddiad 45x ac mae nifer y canlyniadau positif anghywir yn cynyddu'n ddramatig. Mae hyn yn hollol hurt! Nid yw'r PCR yn profi am goronafeirws newydd – mae'n profi am archwys cellol mewndarddol y sawl sy'n cael y prawf! Gronynnau RNA. Mae'n bryd dod â'r achos-demig i ben a rhoi'r gorau i swabio rt-PCR nawr!

Gwybodaeth Ychwanegol

Ar chwyddiant o 45x mae'n amlwg i'r rheini sy'n cynnal gwaith ymchwil annibynnol ac sydd â chefnidir academaidd ym maes gwyddoniaeth bod y prawf PCR yn cael ei ddefnyddio i beri ofn a chreu penawdau trawiadol.

Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad

- Pontypridd
- Canol De Cymru



Ein cyf/Our ref VG/08421/20

Janet Finch-Saunders AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deisebau

13 Ebrill 2021

Annwyl Janet,

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 27 Hydref ar ran y Pwyllgor Deisebau ynglŷn â Deiseb P-05-1062 ar gyfer 'rhoi'r gorau i'r prawf rt-PCR i brofi ar gyfer COVID-19'. Rwy'n ymddiheuro am beidio ag ymateb ynghynt. Mae Llywodraeth Cymru wedi cael lefel ddigynsail o ohebiaeth ynglŷn â'r pandemig, ac rydym yn gweithio i ymateb i bob ymholiad cyn gynted ag y gallwn.

Y prif elfennau ar gyfer gwerthuso cywirdeb prawf yw ei benodolrwydd a sensitifrwydd diagnostig, sy'n effeithio ar y tebygolrwydd o gael canlyniadau positif neu negyddol anghywir:

- Mae'r tebygolrwydd o gael canlyniad positif anghywir yn gysylltiedig yn bennaf â phenodolrwydd y prawf.
- Mae'r tebygolrwydd o gael canlyniad negyddol anghywir yn gysylltiedig yn bennaf â sensitifrwydd y prawf a nifer yr achosion o COVID-19 yn y boblogaeth sy'n cael ei phrofi.

Mae perfformiad neu gywirdeb unrhyw brawf yn gysylltiedig â pherfformiad y prawf ei hun, ond hefyd mae'n gysylltiedig â'r cyd-destun y mae'r prawf yn cael ei gynnal ynddo. Er enghraifft, os yw'r profion yn targedu unigolion sy'n symptomatig, mae hynny'n golygu bod y tebygolrwydd o gael canlyniad positif yn uwch cyn ichi wneud y prawf, ac felly byddai hynny'n lleihau cyfran, er nad nifer, y canlyniadau positif anghywir. Hefyd, pe bai'r protocol profi a ddefnyddid yn cynnwys profion eildro, byddai pob cylch o brofion eildro yn lleihau'r nifer o ganlyniadau negyddol anghywir.

Fel y cytunwyd gan y Grŵp Cyngori Technegol, mae'r egwyddorion ar gyfer defnyddio profion RT-PCR yn cynnwys y canlynol:

- Mae'n bwysicach cynnal profion a arweinir gan yr ystyriaethau clinigol sy'n gysylltiedig ag anghenion clinigol yr unigolyn, na phroffion at ddibenion eraill.
- Dylai profion RT-PCR ychwanegol gael eu hystyried yng nghyd-destun ehangach y profion eraill sy'n cael eu gwneud, gan gynnwys o dan y rhaglen Profi Olrhain Diogelu.
- Mae perfformiad RT-PCR ar ei orau pan fo prawf yn cael ei ddefnyddio mewn modd a dargedir, er enghraifft pan fo'n cael ei ddefnyddio i ategu diagnosis mewn unigolion symptomatig. Nid yw'n addas ar gyfer sgrinio unigolion asymptomatig mewn modd nad yw'n cael ei dargedu, yn enwedig mewn poblogaethau lle mae nifer yr achosion o'r haint

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru
Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

yn isel. Felly, dylai'r prawf mewn unigolion asymptomatig gael ei ddefnyddio ar sail targedu effeithiol, lle bynnag y bo hynny'n bosibl, er enghraifft o ganlyniad i broses olrhain sydd wedi dangos bod tebygolrwydd uchel fod unigolyn wedi dod i gysylltiad â'r feirws.

- Dylid diffinio'n glir ddiben cynnal profion (naill ai profion untro neu eildro) o fewn lleoliadau neu gohortau penodol a dargedir, a chytuno ar y diben hwnnw cyn rhoi'r broses brofi ar waith.
- Dylai'r meini prawf ar gyfer rhoi'r gorau i gynnal profion eildro, o fewn lleoliad neu gohort penodol a dargedir, gael eu pennu'n glir, a'u cytuno, cyn cynnal y profion.

Mae'r dull o ddefnyddio profion PCR yn cael ei gefnogi gan gyngor Iechyd Cyhoeddus Cymru, sy'n cadarnhau bod prawf positif yn cyfateb yn hynod o dda â phresenoldeb SARS-CoV2 RNA, gan ddangos bod gan yr unigolyn y feirws, neu ei fod wedi cael ei heintio. Mae gan y prawf antigenau PCR a ddefnyddir yng Nghymru benodolrwydd dadansoddol o 99.96%, sy'n golygu mai dim ond oddeutu pedwar canlyniad positif anghywir fyddai'n digwydd ym mhob 10,000 o brofion a gynhaliwyd.

Rydym yn ystyried pa mor fuddiol fyddai unrhyw dechnolegau newydd wrth iddynt ddod ar gael. Fel y gwyddoch, rydym wedi symud at ddefnyddio profion llif unffordd yn ogystal â phroffion RT-PCR. Dyfais llaw yw'r ddyfais llif unffordd, a gall ddarparu canlyniadau mewn 30 o funudau gan nad oes angen prosesu'r prawf yn y labordy. Mae'r unigolyn hefyd yn gallu gwneud y prawf ei hunan. Er nad yw'r prawf llif unffordd mor sensitif â'r prawf PCR, gan i hwnnw gael ei brosesu mewn labordy, mae'r cyngor gwyddonol yn dweud fod cywirdeb y profion hyn yn cyfateb i gywirdeb profion RT-PCR pan fo'r profion llif unffordd yn cael eu gwneud yn amlach.

Rwy'n gobeithio bod yr wybodaeth hon o gymorth.

Yn gywir,



Vaughan Gething AS/MS

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services

P-05-1138 Profion COVID-19 wythnosol ar gyfer staff sy'n gofalu am bobl ag anghenion iechyd meddygol cymhleth

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Leanne Collis, ar ôl casglu cyfanswm o 50 lofnodion.

Geiriad y ddeiseb:

Mae ein merch, Olivia, yn 17 oed ac mae ganddi anghenion iechyd meddygol cymhleth sy'n galw am ofal 24 awr. Mae hi mewn perygl o ddal y feirws angheuol hwn bob dydd heb unrhyw system brofi!!

Llofnodwch, plîs! Mae'r staff cymunedol rydym yn sôn amdanynt yn weithwyr rheng flaen sy'n gofalu am bobl agored i niwed, ac maent yn rhoi'r holl ofal personol ac yn cyflawni tasgau angenrheidiol yn y cartref sy'n ofynnol mewn amgylchedd ysbyty.

Gwybodaeth Ychwanegol:

Mae profion wythnosol ar gael ar safleoedd y GIG

Mae profion wythnosol ar gael mewn cartrefi gofal

Mae profion wythnosol ar gael mewn cartrefi preswyl ysgolion arbennig

Rwyf wedi cysylltu ag Iechyd Cyhoeddus Cymru, a gyfeiriodd y mater at ein bwrdd iechyd lleol, ond maent wedi GWRTHOD diogelu Olivia a phrofi ei staff!

Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad

- Gorllewin Caerdydd
- Canol De Cymru

Julie Morgan AS/MS
Y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Deputy Minister for Health and Social Services



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-05-1138
Ein cyf/Our ref JM/00455/21

Clerk, Petitions Committee

Dear Clerk,

28 April 2021

Thank you for your further letter of 29 March regarding weekly testing for staff caring for people with complex medical needs. In responding to your previous letter I did not appreciate that the staff caring for the petitioner's daughter were employed on a private basis. My apologies for that.

You may be aware that the Welsh Government has recently announced the availability of regular testing with Lateral Flow Devices to all those individuals who are unable to work from home - <https://gov.wales/people-wales-who-cannot-work-home-encouraged-use-lateral-flow-self-tests> Tests can be collected from local test sites centres across Wales and are intended to make regular asymptomatic testing for coronavirus more convenient and accessible for people not covered under existing schemes, including those staff caring for the petitioner's daughter.

It is however important we recognise that testing is not a panacea; it has a key role to play within a wider response to the Covid-19 pandemic and has to have a clear specific purpose in order to have the best effect. Scientific advice is clear that robust infection control and management, careful adherence to social distancing and use of PPE remain the most effective way to prevent transmission of the virus.

Yours sincerely,

Julie Morgan AS/MS
Y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Deputy Minister for Health and Social Services

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Julie.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Julie.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Tudalen y pecyn 166
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

P-05-1133 Dylid addasu maes llafur hyfforddiant athrawon i gynnwys Hyfforddiant Trawsnewidiol a Deallusrwydd Emosiynol

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Tracey Jones, ar ôl casglu cyfanswm o 193 lofnodion.

Geiriad y ddeiseb:

Mae arolwg wedi darganfod fod hyd at 33.6% o athrawon yn dweud eu bod yn bwriadu gadael y proffesiwn. Ar hyn o bryd, rydym yn colli 42% o Athrawon Newydd Gymhwys o fewn 2 flynedd oherwydd y llwyth gwaith a'r gorflinder. Bydd ychwanegu'r pynciau hyn at y maes llafur yn rhoi set sgiliau newydd i athrawon i'w helpu gyda'r pwysau ar hyn o bryd, a bydd y pynciau hyn yn galluogi ein cenhedlaeth nesaf o blant i ddatblygu gwydnwch a deall eu hemosiynau yn well. Mae niwrowyddoniaeth yn esblygu ac mae tystiolaeth yn dangos bod angen cryn newid. Bydd hyn yn cael cryn effaith ar iechyd meddwl ein cenhedlaeth nesaf o blant ac addysgwyr.

Gwybodaeth Ychwanegol:

Mae peidio â chynnig addysg am ein systemau mewnol a'r proses o feddwl yn achosi mwy o iechyd meddwl gwael. Wrth i amseroedd newid, rhaid i ni addasu. Fel cyn-athro, rwy'n deall y pwysau sydd ar y system. Bydd dysgu sgiliau cryf o ran deallusrwydd emosiynol, sgiliau meddal 'Alcemi Iaith' a hyfforddiant trawsnewidiol nid yn unig yn galluogi'r athrawon i reoli straen y rôl, ond hefyd yn helpu wrth feithrin cadernid meddwl. Yna, gallant drosglwyddo'r sgiliau hyn i ddisgyblion, gan greu diwylliant newydd o hunanymwybyddiaeth.

Byddant yn deall:

*Effaith iaith ar y corff a'r technegau cwestiynu treiddgar a fydd yn caniatáu iddynt hunan-hyfforddi trwy gyfnodau o bwysau, a dysgu ein plant sut i hunan-hyfforddi

*Cael gwared ar batrymau iaith negyddol

*Deall beth sydd wrth wraidd ein harferion

*Ailfeddwl am eu deialog fewnol: patrymau meddwl strategol a rhyddhau emosiynau negyddol

*Hyfforddi eraill yn ystod cyfnodau tyngedfennol ac adegau isel: gan osgoi cynhyrfu'r dyfroedd.

Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad

- Llanelli
- Canolbarth a Gorllewin Cymru

9^{fed} Llawr
Eastgate House
35-43 Ffordd Casnewydd
Caerdydd
CF24 0AB
Ffôn: 029 20460099
Ffacs: 029 20475850



9th Floor
Eastgate House
35-43 Newport Road
Cardiff
CF24 0AB
Tel: 029 20460099
Fax: 029 20475850

Janet Finch-Saunders AC
Cadeirydd, y Pwyllgor Deisebau
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

7 Ebrill 2020

Annwyl Janet

Deiseb P-05-1133 Addasu'r maes llafur hyfforddi athrawon i gynnwys Hyfforddiant Trawsnewidiol a Deallusrwydd Emosiynol

Diolch am eich llythyr dyddiedig 30 Mawrth 2021. Ymatebaf isod ar ran Cyngor y Gweithlu Addysg (CGA).

Mae gan CGA gyfrifoldeb statudol (o dan ddeddfwriaeth Llywodraeth Cymru) i achredu rhaglenni addysg gychwynnol i athrawon (AGA) yng Nghymru a monitro eu cydymffurfiad wedi hynny. Gwneir yr ystyriaethau hyn yn unol â'r "*Meini prawf ar gyfer achredu rhaglenni addysg gychwynnol i athrawon (AGA) yng Nghymru 2018*".

Mae'r meini prawf ac, yn ei dro, cynnwys y rhaglenni yn cael eu pennu gan Lywodraeth Cymru yn hytrach na CGA, felly mae'n fwyaf priodol i'r mater hwn gael ei gyfeirio at swyddogion y Llywodraeth.

Fodd bynnag, efallai byddai'n ddefnyddiol i mi amlygu bod CGA a Llywodraeth Cymru wedi derbyn llawer o geisiadau ynghylch ychwanegiadau at faes llafur rhaglenni AGA dros y blynyddoedd. Mae'n bwysig cydnabod bod rhaglenni'n cyfuno cymysgedd o ddamcaniaeth ac ymarfer addysgu, a bod y cynnwys damcaniaethol wedi'i gyfyngu gan yr amser prin sydd ar gael i'w gyflwyno, yn enwedig yn achos cwrs Tystysgrif Addysg i Raddedigion (TAR) blwyddyn o hyd. Fel y cyfryw, er bod bwriad da i'r cynnwys ychwanegol a awgrymwyd, efallai na fydd o reidrwydd yn ymarferol ei gyflwyno yn yr amser sydd ar gael.

Mae croeso i chi gysylltu â mi ar hayden.llewellyn@ewc.wales neu **(029) 2046 0099** os gallaf fod o gymorth pellach.

Yn gywir

Hayden Llewellyn, Prif Weithredwr
Cyngor y Gweithlu Addysg

P-05-1133 Adapt the teacher training syllabus to include Transformational Coaching and Emotional Intelligence, Correspondence – Petitioner to Committee, 30.08.21

- **What are your thoughts on the attached document?**

I am grateful for a response from the Education Workforce Council, but it does not address the initial problem that we are facing here in Wales of teacher burn out and stress, with a high number of staff leaving the profession.

I understand that there needs to be a balance of theory and teaching practice. Placing an extra few hours a week to a timetable that isn't currently a full time table can be feasible to equip our teachers with some solid EQ tools.

- **Does it adequately address the issues that you raised?**

I don't feel that it has adequately addressed the issues raised. I understand that that the EWC and Welsh Government have received many requests for additions to the syllabus of ITE programmes over the years.

However, we are moving into a very different era of teaching. Our teachers need a different set of tools to support not only themselves with the resilience of maintaining a job that have high cases of burn out and stress but also to manage to pass the tools to our next generation of children.

- **Do you have further questions in response?**

I'd like to know how we will maintain our teaching staff in the future?

- **Is there anything additional that you would like the Committee to know at this stage, either in response to this document or as an update to the Committee?**

Since the pandemic, our teaching staff and specially many Head Teachers are at burn out point. Having worked with over 200 Head Teachers throughout the pandemic understand first-hand how they are feeling as a result.

I will look forward to hearing from you.

Diolch

P-05-1135 Cyllid wedi'i dargeddu ar gyfer canolfannau addysg awyr agored preswyl, sydd bellach yn methu â gweithredu am 12 mis

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Sara Jane Jones, ar ôl casglu cyfanswm o 1,181 lofnodion.

Geiriad y ddeiseb:

Mae canolfannau ledled Cymru wedi gorfod cau eu drysau i ymweliadau ysgolion am o leiaf 12 mis oherwydd cyfyngiadau'r llywodraeth. Maent wedi cael yr un swm o gyllid ychwanegol â busnesau eraill, ac eto maent wedi colli bron eu holl incwm. Mae'r canolfannau hyn nid yn unig yn darparu gwasanaethau addysgol hanfodol, maent hefyd yn fewnfuddsoddiad sylweddol i rannau gwledig Cymru ac yn dod â llawer o swyddi medrus. Heb gymorth ariannol bydd llawer yn cau, gan adael ardaloedd gwledig, cyflenwyr, gwasanaethau a masnachau lleol wedi'u distrywio.

Gwybodaeth Ychwanegol:

Mae llywodraeth yr Alban wedi cyhoeddi cronfa gwerth £2 filiwn ar gyfer canolfannau yn yr Alban i'w helpu i oroesi'r pandemig. Er mwyn cyflawni'r un peth yng Nghymru, byddai angen pecyn gwerth £10 miliwn. Mae'r canolfannau hyn yn rhan fwy o'r economi yng Nghymru nag yn yr Alban. Yng Ngogledd Cymru yn unig, incwm blynyddol y canolfannau hyn yw tua £50 miliwn, sy'n cefnogi 900 o swyddi. Bydd y ffigur cenedlaethol ar gyfer Cymru yn fwy na dwbl hyn. <https://www.gov.scot/news/residential-outdoor-education-centres-fund-opens/>

Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad

- Dwyfor Meirionnydd
- Canolbarth a Gorllewin Cymru

P-05-1135 Targeted funding for residential outdoor education centres, now unable to operate for 12 months, Correspondence – Petitioner to Committee, 10.03.21

Dear petitions committee.

I thank you again for bringing my petition to the fore and giving consideration to the points raised. I am pleased that the committee agreed that it was a matter of some considerable concern that needed to be addressed.

I am aware that in the committee's last meeting it was stated that I, as the petitioner would be contacted for further information. I remain willing to provide any further details I can to help the committee take informed action. However I have not been contacted at this stage and do feel the information I have already submitted was comprehensive. To this end and given the time sensitivity of this petition I do question why further action is not already underway. This delay will cost more people their jobs and livelihoods and continue to decrease outdoor education provision in Wales.

There is already a shortage of residential outdoor education provision for children in Wales. The past few years have seen the closure of many centres, such as Staylitttle and Ty Gwyn (Powys centres) and as a result many of the remaining centres take a mixture of schools in Wales and schools from over the border. Since writing my statement to the committee I can confirm that out of the 40 centres listed 8 have indeed closed permanently with many more hanging in the balance. I am watching with sadness as buildings go on the market as domestic properties. They will never again be for the use of our children. As a nation outdoor education is an incredible asset, something Wales does fantastically well. I am ashamed that the Welsh Government continues not to see the profession or the people in it recognised and supported.

Furthermore, as I previously stated this as much an economic matter as an educational one. The income that these centres bring into Wales's most rural areas is considerable, as well as the skilled jobs they provide and the supply chains they support. We are yet to be given any recognition as a sector by the minister for Welsh Economy, Ken Skates or indeed any consideration of our situation as businesses. I would state again that these businesses have not been recognised for funding in line with other Welsh businesses. I am also aware that through the winter months the government lockdown grants have been given to campsites. Campsites that would normally be closed at this time of year and in fact their licenses require them to be closed. Still they have received grant funding to maintain their grass fields whereas large residential centres have been given the same to maintain large buildings,

technical equipment, fleets of buses and are losing hundreds of thousands of pounds of income that would have been generated in this period. How can this be fair?

I feel sure that Wales will want to recognise the importance of this sector now as well as the contribution it can make in the future. Both Scotland and Northern Ireland have now provided targeted sector support for outdoor education and continue a dialogue with the sector showing their recognition of the importance.

I reiterate the urgent nature of this petition and the devastating consequences from further inaction.

I am keen to know the timescale of the current deferral and what action or evidence gathering will commence in the interim. I await your response.



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

TEITL	Datganiad Llywodraeth Cymru ar Sefydlu Cronfa ar Gyfer y Sector Addysg Awyr Agored Breswyl
DYDDIAD	24 Mawrth 2021
GAN	Kirsty Williams AS, y Gweinidog Addysg a Ken Skates AS, Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru

Rydym heddiw yn falch o gael cydgyhoeddi bod cronfa wedi gael ei sefydlu i gefnogi sector addysg awyr agored breswyl yng Nghymru gyda dyraniad cychwynnol o £2m. Bydd y gronfa hon yn rhoi cymorth i ganolfannau cymwys ledled Cymru i dalu am gostau gweithredu hanfodol rhwng Mehefin a Medi 2021.

Mae pandemig COVID-19 wedi effeithio'n negyddol ar ganolfannau preswyl addysg awyr agored yng Nghymru, fel mewn gwledydd eraill. Nid yw llawer o leoliadau wedi gallu ailgydio yn eu darpariaeth ddysgu awyr agored ers Mawrth 2020. Gan fod y pandemig yn dal yma ynghyd â'r mesurau i leihau trosglwyddiad y feirws, mae canolfannau preswyl awyr agored yn debygol o barhau i ddioddef. Mae hyn yn effeithio nid dim ond ar y canolfannau, eu staff ac economi eu cymunedau lleol, mae hefyd yn effeithio ar y plant a'r bobl ifanc sy'n elwa ar y profiadau y maent yn eu cael yn y canolfannau preswyl hyn.

Cyn y pandemig, byddai miloedd o blant ysgol Cymru yn mwynhau'r profiadau a'r cyfleoedd addysgol y mae'r canolfannau hyn yn eu cynnig i blant a phobl ifanc. Maent yn darparu cyfleoedd dysgu dan arweiniad arbenigwyr y tu allan i'r dosbarth, ac mae'r manteision o ran lles y dysgwyr yn gydnabyddedig. Mae addysg antur yn rhywbeth unigryw ar daith person ifanc drwy'r ysgol, ac mor werthfawr fel bod rhieni yn fodlon talu amdani, ac athrawon ac arbenigwyr yn fodlon rhoi o'u hamser i gynnig profiadau a fydd yn cyfoethogi bywydau'r dysgwyr.

Bydd addysg awyr agored yn chwarae rôl bwysig o ran cwricwlwm newydd Cymru, a bydd yn parhau i wneud cyfraniad gwerthfawr i lawer o economïau lleol wrth inni ddechrau cymryd camau gofalus i godi cyfyngiadau COVID-19.

Rydym wedi gwranddo'n astud ynghylch pryderon y sector, a'r heriau penodol sy'n ymwneud â chanolfannau preswyl addysg awyr agored. Mae llawer o sefydliadau'r sector wedi cael cymorth gan Lywodraeth Cymru yn ystod y pandemig, ond mae angen sicrhau bod y cymorth yn parhau i fod ar gael lle bo angen. Caiff cronfa ei sefydlu, felly, i gefnogi sector addysg awyr agored breswyl Cymru.

Caiff mwy o fanylion am y Gronfa, gan gynnwys pryd y bydd ar agor i ymgeiswyr, eu rhyddhau ym mis Mai.

P-05-1135 Targeted funding for residential outdoor education centres, now unable to operate for 12 months, Correspondence – Petitioner to Committee, 29.03.21

We are pleased to hear that the Government has begun to listen to our situation and support what is a very educationally valuable and viable sector. The announcement of a sector specific fund for residential outdoor education is welcomed and I thank you for your time in addressing this matter on our behalf.

The statement communicates that further details of the fund will not be available until May. With the sector being diverse this does leave organisations wondering whether they will be eligible, how the funds will be allocated and how this will support them going forward. Clearly with 8 of 41 centres in Wales already closed permanently because they have not been able to bridge the gap until they can reopen this is a very time critical period. I would be pleased if you were able to shed any further light to this situation for centres that will by May have been closed for a full 14 months.

Furthermore, the announcement also came last week that the DfE have changed their guidance on school visits and that residential school visits should be allowed no earlier than 17th May. It could be the case that after having waited for 14 months centres like ours will now not be eligible for the fund if they are indeed open and able to trade. I would urge the Government to consider the 5 months in 2020 that residential centres were unable to trade yet remained financially unsupported and also the "start up costs" that are now faced after the long period of closure.

I thank you again for your time.



Eich cyf/Your ref P-05-1135
Ein cyf/Our ref KW/02005/21
Janet Finch-Saunders AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN
Deisebau@senedd.cymru

31 Mawrth 2021

Annwyl Janet

Diolch am eich e-bost ar ran y Pwyllgor Deisebau ynghylch cyllid wedi'i dargedu a chefnogaeth ar gyfer canolfannau addysg awyr agored preswyl, (P-05-1135). Rydw i'n falch o allu darparu newyddion ynghylch y gefnogaeth a'r cyllid sydd ar gael, ac i fynd i'r afael â'r pryderon a godwyd gennyh.

Yn gyntaf, hoffwn eich sicrhau ein bod i gyd am weld pethau'n dychwelyd i 'normal' – adeg pan fydd darparwyr addysg awyr agored yn gallu cefnogi ein dysgwyr. Rwy'n gwybod pa mor bwysig yw profiadau awyr agored i'n plant a'n pobl ifanc, a sut y gallant chwarae rhan arbennig o bwysig mewn dysgu ac yn ein proses adfer. Gobeithiwn y bydd yr awyr agored hefyd yn chwarae rhan allweddol wrth wireddu uchelgeisiau ein cwricwlwm newydd.

Mae swyddogion yn parhau i gael trafodaethau rheolaidd gyda Llywodraethau eraill y DU a chyda'r sector, a phan fyddwn yn credu ei bod yn ddiogel llacio cyfyngiadau ymhellach, byddwn yn gwneud hynny. Rhaid i ddiogelwch barhau i fod yn flaenoriaeth i ni. Fel y gwyddoch, ein dull o weithredu yw llacio'r cyfyngiadau yn raddol, gwrando ar y cyngor meddygol a gwyddonol ac asesu effaith y newidiadau a wnawn wrth i ni fynd ymlaen. Mae bod yn ofalus yn ein galluogi i fonitro'r effaith ar gyfraddau trosglwyddo ac i wneud newidiadau cyn i leoliadau lletygarwch, gweithgareddau a hamdden, a manwerthu gael eu hagor yn llawn unwaith eto. Fodd bynnag, rydym yn bwrw ymlaen â thrafodaethau ar sut y gellid llacio'r cyfyngiadau, a'r camau lliniaru sydd eu hangen i sicrhau bod ymweliadau â lleoliadau addysg awyr agored yn gallu ailddechrau'n ddiogel, ar yr adeg briodol. Byddwn yn diweddarau ein canllawiau cyn gynted ag y bo'n briodol gwneud hynny; gan ganiatáu i ymweliadau dydd domestig ailddechrau yn gyntaf, ac ailddechrau teithiau preswyl domestig maes o law.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru
Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rwy'n falch eich bod yn cydnabod bod Llywodraeth Cymru yn gwneud popeth o fewn ei gallu i gefnogi busnesau drwy'r cyfnod anodd iawn hwn. Er bod llawer o sefydliadau yn y sector wedi cael cymorth gan Lywodraeth Cymru yn ystod y pandemig, roeddem yn cydnabod bod angen sicrhau bod cymorth yn parhau i fod ar gael pan fo angen. Ar 24 Mawrth, cyhoeddais ar y cyd â Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru, Ken Skates AS y byddai cronfa £2 filiwn yn cael ei sefydlu i gefnogi'r sector addysg awyr agored preswyl yng Nghymru. Mae manylion y cyhoeddiad i'w gweld isod:

<https://llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-datganiad-llywodraeth-cymru-ar-sefydlu-cronfa-ar-gyfer-y-sector-addysg-awyr>

Bydd cronfa'r Sector Addysg Awyr Agored Preswyl yng Nghymru yn darparu cyllid i'r sector gyda chymorth i dalu costau gweithredu hanfodol yn ystod y cyfnod rhwng mis Mehefin a mis Medi, pan fydd y Cynllun Cadw Swyddi presennol yn cau. Os bydd cyfyngiadau'n dal i fod yn berthnasol, bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried pa gymorth fydd ei angen i gefnogi'r sector.

Cyn hyn, cafodd llawer o fusnesau yng Nghymru o'r sector gymorth drwy grantiau ardrethi annomestig a gyflwynwyd mewn ymateb i'r cyfyngiadau a osodwyd o ganlyniad i Covid, a chan Gronfa Cadernid Economaidd Llywodraeth Cymru sy'n rhoi cymorth ychwanegol i economi, busnesau ac elusennau Cymru sy'n dioddef gostyngiad difrifol mewn masnachu o ganlyniad i bandemig y coronafeirws. I lawer o fusnesau yng Nghymru, mae'r Gronfa Cadernid Economaidd wedi llenwi'r bylchau yn y cynlluniau cymorth a gyhoeddwyd eisoes gan Lywodraeth y DU, gan gynnwys y Cynllun Cadw Swyddi a'r Cynllun Cymorth Incwm i'r Hunangyflogedig (SEISS).

O ran rhyddhad ardrethi busnes Llywodraeth Cymru i'r sectorau manwerthu, hamdden a lletygarwch, yn 2020-21 mae'r cynlluniau rhyddhad wedi darparu dros £365 miliwn o gymorth yn ogystal â'n cynlluniau rhyddhad parhaol. Mae hyn yn golygu bod Llywodraeth Cymru wedi darparu dros £595 miliwn mewn rhyddhad ardrethi eleni. Mae'r cynlluniau wedi'u targedu yn cael eu hymestyn i 2021-22 gan ddarparu tua £380 miliwn o ryddhad ychwanegol, ac mae cyfanswm y cymorth a ddarparwyd ar gyfer 2021-22 yn fwy na £610 miliwn.

Wrth symud ymlaen, mae £200 miliwn ychwanegol ar gyfer cymorth busnes yn sgil Covid yn y gyllideb derfynol ar gyfer 2021-22 wedi cael ei gymeradwyo. Rhagwelir y bydd y Llywodraeth newydd am wneud penderfyniadau ar y ffordd briodol o ddefnyddio'r cyllid hwn.

Drwy gydol ein hymateb i'r pandemig, rydw i wedi ceisio blaenoriaethu anghenion ein plant a'n pobl ifanc, gan roi ystyriaeth lawn a gofalus i'w hawliau. Rydym i gyd yn ymwybodol iawn o'r effeithiau ar iechedd corfforol, meddyliol ac emosiynol, ac yn cytuno'n llwyr bod mynd i fannau awyr agored, a chael cyfleoedd i gymryd rhan mewn amrywiaeth o wahanol weithgareddau yn hanfodol i les pob un ohonom, ac yn arbennig felly plant a phobl ifanc.

Rydym yn edrych ar yr hyn y gellid ei wneud i gynyddu mynediad at y mathau hyn o weithgarwch dros yr haf. Fel y nodir yn fersiwn ddiweddaraf Cynllun Rheoli Coronafeirws Cymru, rydym hefyd yn edrych ar sut a phryd y gallwn ailgychwyn ystod ehangach o weithgareddau wedi'u trefnu, gan gynnwys gweithgareddau dan do i blant a phobl ifanc, a gweithgareddau dan do ac yn yr awyr agored ar gyfer oedolion.


Ar hyn o bryd rydym yn parhau i gynghori yn erbyn cynnal ymweliadau addysgol, felly yn anffodus nid yw cyrsiau preswyl fel y rhai a ddigwyddodd yn y gorffennol yn gallu ailgychwyn am y tro. Fodd bynnag, byddwch wedi gweld ein bod wedi gallu ailgychwyn cynnig llety hunangynhwysol o 27 Mawrth, ond dim ond un aelwyd gaiff yn aros yn y llety a ddarperir. O ganlyniad, ni allaf ddweud pryd y gallem ganiatáu i wersylloedd ailagor, ond

rydym yn cymryd camau i ailgychwyn amrywiaeth ehangach o weithgareddau y gallai rhai canolfannau eu cynnig.

Hefyd, fel rhan o lacio'r cyfyngiadau presennol sydd ar waith ledled Cymru, roeddem yn gallu ailgychwyn gweithgareddau wedi'u trefnu ar gyfer plant a phobl ifanc o dan 18 oed o 27 Mawrth. Rydym wedi cyhoeddi rhai Cwestiynau Cyffredin i gefnogi'r ailgychwyn hwnnw, a allai fod o ddiddordeb i rai canolfannau addysg awyr agored ac yn enwedig y rhai sy'n gallu darparu gweithgareddau dibreswyl. Gobeithio y gwneir penderfyniadau ar hyn yng nghylch adolygu 22 Ebrill, yn amodol ar y sefyllfa ehangach o ran iechyd cyhoeddus. Gobeithio y bydd hyn hefyd yn cynyddu'r cyfleoedd i ganolfannau addysg awyr agored.

Diolch am y cyfle i roi'r wybodaeth ddiweddaraf ichi am y cynnydd sy'n cael ei wneud, a'r sefyllfa ariannol ar gyfer canolfannau addysg awyr agored. Gobeithio bod hyn yn mynd i'r afael â llawer o'r pryderon a'r pwyntiau a godwyd.

Yn gywir

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Kirsty Williams'.

Kirsty Williams AS
Y Gweinidog Addysg

Eitem 3.10

P-05-949 ARBED YR HEN YSGOL GANOLRADD I FERCHED Y BONTFAEN RHAG EI DYMCHWEL

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Sara Pedersen, ar ôl casglu 2,080 o lofnodion ar-lein a 3,442 ar bapur (dim yn derfynol), sef cyfanswm o 5,522 o lofnodion.

Geiriad y ddeiseb:

Galwn ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cymru i amddiffyn yr hen 'Ysgol Ganolradd i Ferched' y Bontfaen, Bro Morgannwg. Hon oedd yr ysgol ganolradd gyntaf i gael ei hadeiladu yn benodol ar gyfer addysgu merched yng Nghymru (a Lloegr), ac mae cais cynllunio wedi ei gyflwyno i'w ddymchwel. Byddai methu ei gwarchod yn arwain at golli adeilad hanesyddol o bwysigrwydd cenedlaethol.

Wedi'i hagor ym 1896, ysgol ganolradd merched y Bontfaen oedd yr ysgol ganolradd gyntaf i ferched gael ei hadeiladu yng Nghymru (a Lloegr) o ganlyniad i Ddeddf Addysg Ganolradd Cymru 1889, a oedd ynddo'i hun yn foment bwysig yn Hanes Cymru. Ymysg ei gyfoeswyr, roedd ysgol y Bontfaen yn hynod anghyffredin o ran cynnwys llety i rai o'r disgyblion o'r cychwyn ac am gael ei ariannu i raddau helaeth gan ddyngarwr lleol.

Mae cymeriad gwreiddiol yr ysgol wedi goroesi i radd uchel iawn, yn allanol a thŷ mewn, gan gynnwys y neuadd a grisiau gwreiddiol. Dim ond 5 ysgol gymharol (o 95) sydd wedi'u rhestru ledled Cymru. Mae arolwg ohonynt i gyd yn cadarnhau fod ysgol y Bontfaen wedi goroesi i raddau cyfatebol i rai a gwell nag eraill.

Roedd y pensaer, Robert Williams, yn arloeswr ei gyfnod ac yn enwog am fod yn un radical. Roedd yn flaengar wrth annog cadwraeth adeiladau, yn arloeswr cenedlaethol o ran tai cymdeithasol, hybodd Ysgol Pensaernïaeth Cymru a hyrwyddodd cyhoeddi yn yr iaith Gymraeg. Yn ddiweddarach yn ei yrfa aeth i weithio i deulu Davies Bryan yn Llundain ac yna'r Aifft, lle mae llawer o'i adeiladau yn dal i sefyll ac wedi'u gwarchod yn genedlaethol.

Mae cyn 'Ysgol Ganolradd i Ferched y Bontfaen' wedi goroesi fel tystiolaeth amlwg a deniadol o gyfnod pwysig yn hanes Cymru pan ddarparwyd cyfleoedd cyfartal i ferched difreintiedig yr oes. Rydym yn annog

Llywodraeth Cymru, fel ceidwaid ein treftadaeth, i amddiffyn yr adeilad hwn, unai drwy ei restru neu ddarparu cyllid tai cymdeithasol ychwanegol i alluogi ei drawsnewid.

Gwybodaeth ychwanegol:

Cyfeiriad: Scourfield (2019). FORMER COWBRIDGE COMPREHENSIVE SCHOOL, ABERTHIN ROAD, COWBRIDGE – AN HISTORICAL AND ARCHITECTURAL APPRAISAL.

Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad

- Bro Morgannwg
- Canol De Cymru

[REDACTED]

24th August 2021

Dear Members of the Petitions Committee,

RE: Petition P-05-949. Save Cowbridge Old Girls' School from Demolition

By way of an overview, the purpose of our petition and campaign is to seek listed status for the Former Intermediate School for Girls, Cowbridge, Vale of Glamorgan. Our petition was submitted in March 2020 having gained more than 5,500 signatures in just 6 weeks. Signatories were not just based in the Vale of Glamorgan but were from every region of Wales, and indeed, further afield. Our campaign is supported by substantive evidence and expert opinion, including some of the most prominent academics and heritage professionals across Britain. The campaign is also backed by the Victorian Society and SAVE Britain's Heritage, with the school being listed in the Victorian Society's 'Top 10 Endangered Buildings' in September 2019.

Why is the building important?

Built in 1895 it was the first school specifically built for the intermediate education of girls following the Welsh Intermediate Education Act of 1889, which in itself was a pivotal moment in Welsh history. The school was also unusual in that it provided accommodation for boarders to allow less privileged girls to be able to attend the school from further afield. It also was very rare due to the inclusion of a specifically built science laboratory, pioneering women in STEM.

The building itself is very attractive with many unique architectural features. It was designed by Robert Williams, an architect who was an early proponent of the Welsh School of Architecture and seen as a pioneer of his time. He was also a proponent of the Welsh language in building literature and later worked for the Davies Bryan family (of Aberystwyth University) in Egypt where he was central to the Welsh community. As a result of the information revealed through our campaign Robert Williams is now included in the Dictionary of Welsh Bibliography, confirming his importance within Wales and further afield.

These are just some of the many reasons why we are campaigning to ensure that this building is protected for years to come so that it can continue to stand proud as an attractive reminder of a pivotal moment in Welsh history (specifically women's education) and the work of a prominent Welsh architect.

Why is the building at risk?

The site is currently sold 'subject to planning' to a developer who seeks to demolish the school following an application submitted to the Vale of Glamorgan Planning Department in December 2018 (please note the application is yet to be determined). Whilst the community welcomes development of the site and the provision of additional affordable housing in the town, the potential loss of the school has been met with dismay. The school building makes a positive contribution to the architectural and historic interest of Cowbridge and has been a prominent and important part of the town for over 100 years. Despite efforts to work with the developer and alternative conversion plans being presented by SAVE Britain's Heritage, the developer still seeks to demolish the school.

A listing request was made to Cadw following the presentation of a substantive report documenting robust evidence to support listing. However, this request was declined based on subjective opinion rather than objective assessment. Cadw appointed an independent consultant to review and support their decision, however, significant conflicts of interest have been raised about the appointment and whether it could be considered truly independent. Due to this an independent peer review of the listing decision was requested but was also subsequently declined. Furthermore, a Freedom of Information request has demonstrated that Cadw have purposefully withheld information and refused to engage in academic debate on the significance of the school.

Established procedures exist with Historic England and Historic Scotland to peer review decisions where there are contrasting opinions. In this instance we have extreme differences in opinion between Cadw (and a consultant employed by Cadw) and more than 20 highly regarded experts in the fields of history, architecture, heritage and archaeology. Within this group are the President of the Royal Historical Society, Director of the University of Wales Centre for Advanced Welsh and Celtic Studies, former members of Cadw's Historic Building Council, a former President of the British Academy and several Founding Fellows of the Learned Society of Wales. Given their collective expertise and experience, their views should be respectfully taken into consideration and Cadw's decision scrutinised. Their letter to the previous Deputy Minister was overlooked and their evidence-based opinions ignored ([22.03.20 Correspondence - Petitioner to Committee Additional information - Group letter of support .pdf \(senedd.wales\)](#)).

As a number of assessments are still required prior to the planning application being considered by the Local Authority, it will be sometime before it will be brought forward to the Planning Committee. Whilst it is appreciated that the Petitions Committee may wish to leave the future of the school in the hands of the Local Authority, the national significance of this building makes it a wider issue, requiring action by the Welsh Government. Furthermore, should the application be refused it still leaves this national historic asset at risk of future applications for demolition. **We ask that you consider putting the petition forward for a detailed inquiry to scrutinise all of the evidence provided in this case and press for an independent peer review through the established channels so that we can ensure that this important part of Welsh history is not lost.**

Yours sincerely,



Sara Pedersen

SAVE Cowbridge Girls' School Campaign Group

Eitem 3.11

P-05-1073 Sefydlu ac adeiladu cangen newydd o Amgueddfa Cymru sy'n canolbwyntio ar ran Cymru mewn trefedigaethedd

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Kieran Sawdon, ar ôl casglu cyfanswm o 103 lofnodion.

Geiriad y ddeiseb:

Mae mudiad Mae Bywydau Du o Bwys (BLM) wedi tynnu sylw at rai enghreifftiau caswir yn hanes Cymru y mae llawer iawn ohonom heb eu dysgu erioed.

Mae hyn oherwydd y ffaith bod yr Ymerodraeth, yn draddodiadol, yn cael ei hanwybyddu yng Nghymru i raddau helaeth, a hynny am ein bod yn dewis canolbwyntio ar yr elfennau trefedigaethol a wynebwyd gennym ni. Nid yw hyn yn golygu bod gan Gymru lechen lân lle mae camweddau yn y cwestiwn. Byddai amgueddfa bwrpasol newydd o dan ofal Amgueddfa Cymru yn ffordd briodol o ysgogi'r sgysiau anodd hyn ac o addysgu cenedlaethau'r dyfodol.

Gwybodaeth Ychwanegol

Wrth inni ddechrau trafod yr hyn a ddylai ddigwydd i greiriau ein gorffennol trefedigaethol, fel cerflun Thomas Picton yn Neuadd Dinas Caerdydd, mae llawer iawn o bobl yn dweud y dylid eu cadw "i addysgu", ond y broblem yw dyna'r union beth nad ydyn nhw wedi ei wneud.

Byddai cyfleuster o'r math yn fodd o ddangos darlun llawn y ffigyrau hanesyddol â staen ar eu henwau ac yn fodd o egluro'r erchyllterau a gyflawnwyd ganddynt a'r ffordd y gwnaethant les i Gymru drwy ddulliau ffiائد.

The Welsh Government are acting in a contrary and painful fashion at Cosmeston by decimating the rural coastal landscape, removing mature trees and hedgerows, the natural habitats of our wildlife while exacerbating traffic movements, congestion, poor air quality, noise, etc. that will not tackle climate change, improve our health, benefit the local economy, or preserve Wales’ beautiful landscapes and nature

The proposed development would have a significant harmful effect sites of nature conservation and historic interest, and areas of landscape importance in the area which is of more than local importance due to its position adjacent to the Severn Estuary special area of conservation and designated Marine Protection Area. The site is also protected under the Ramsar Convention as this part of the coast, together with Cosmeston Lakes Country Park, is an assembly and arrival point for migrating bird. There is concern that the Environmental Statement does not fully reflect the importance of the site in terms of the importance of its varied ecology and its historic significance in terms of its relationship to Cosmeston Medieval Village, located immediately to the west of Lavernock Road. The assessments carried out by the applicant’s agents deliberately understate the importance of these features and therefore issues are not being properly addressed by the applicant.

The ever-increasing coastal erosion exacerbated by the many recent and continuing cliff falls around the development area, appears to be under dispute and would appear to be ignored by the applicant and the Local Planning Authority as any required 'buffer zone' will reduce the site area.

Recently the Vale of Glamorgan Councils have made declarations on a Climate Change Emergency and Nature Emergency but appear to be supporting the development which could be considered contrary to these declarations.

2. The application is considered contrary to Wales Planning Policy in that the proposed development on this scenic coastal and farming landscape cannot be seen as a 'coastal development' that requires a 'coastal location.'

This area of land was previously purchased some years ago by the Land Authority for Wales (LAW), who were aware that, a housing development could not be considered a "coastal development" at a 'coastal location,' and would decimate the natural landscape and wildlife and their habitats, and which would lead to the coalescence between Penarth and Sully. The LAW was also aware of the probable contamination from the landfill site.

Discussions with the Vale of Glamorgan Planning Department were favourable as they considered the golf course an appropriate "coastal development", maintaining the coastal landscape and wildlife habitats and would prevent any future coalescence between Penarth and Sully.'

The LAW discussed a proposed with the local Glamorganshire Golf Club, providing the Golf Club with a 27-hole golf course, etc, on the land to the rear of Lower Cosmeston Farm, while developing part of the Glamorganshire Golf Course for housing, and part being allocated to the adjacent Cosmeston Lakes Country Park.

However, the Glamorganshire Golf Club members opposed the scheme due to the Golf Club history and the location of the contaminated landfill site lying within the prospective golf course.

It is concerning that the Welsh Government are ignoring the reasons behind this previous development proposal.

3. Many residents and signatories to the petition consider that the application has not received and cannot receive the procedural fairness or be viewed in an independent manner that applications of this standing merit, and, that the Vale of Glamorgan may have pre-determined the application.

Further to the application being registered on the 23rd October 2020 by the Council on the same day that the Welsh Government announced the national "firebreak lockdown", which considerably affected public access to the applicants documentation and an inability to hold Public Meetings or visit residents to explain the application and documents it appears that various provisions are being made to the Council which can be perceived as inducements to approve the application and which the Council are readily accepting.

- I. Within the proposal the applicant is providing the Council land for a 2 form-entry Primary School.
- II. It has been agreed between the Welsh Government and the Council that on approval of the "housing" application the applicant will provide the Council with £8.25 million towards the £11 million cost to purchase of land (owned by Welsh Government, adjacent to the housing site) and development of a Special Needs School as an annex to Ysgol Y Deri School which is approximately 3 miles away in Penarth. Ysgol Y Deri School provides services for children from across the Vale of Glamorgan and Cardiff. The Council have already agreed to take an amount from S106 monies from a local housing development in Sully towards the development costs of the Special Needs School.
- III. The Vale of Glamorgan Council has recently submitted a planning application for the Special Needs School annex, with the same Planning Officer dealing with both applications.
- IV. The proposed Special Needs School is being utilised by the Council to shame objectors to the housing development by stating that they are objecting to the Special Needs School.

(Many residents are not opposed to the need to the expansion of Ysgol Y Deri and have great regard for the education needs it provides but feel that the annex should be sited in closer proximity to the school with a more appropriate site being "across the road" from the present school which will still

be encompassed within the Penarth Learning Centre located there. This would also mean that the students and staff health and safety can be maintained away from the contaminated landfill site and the flood zone that the access to the schools and housing lie within, would negate the need for increased traffic movement by staff between the separate sites, reduce traffic movements in and around the locality of Cosmeston.)

4. Comments made by the Minister for Finance and Trefnydd in a statement (dated 13 January 2021) to the Petitions Committee are found to be contentious, threatening and demeaning.

I. *“The development proposals were also subject to public consultation as part of the preparation and examination of the Vale of Glamorgan Local Development Plan and extensive pre-application consultation was undertaken well in advance of the Covid 19 pandemic and associated restrictions. There have been several opportunities for residents to make comments in respect of the proposals.”*

At each of the above events, that the Minister refers to, different proposals were made at each event:

- Preparation of LDP - 235 houses smaller site, outside the proposed Green Wedge area.
- Examination of LDP – 576 houses, larger site, Green Wedge area readjusted to accommodate site.
- Public Consultation – plans and pictures shown were stated by the applicants’ agents as “our “ideas and dreams of the development” and not “concrete” proposals.
- Planning Application – development advances outside the LDP site into the Green Wedge area, involves demolition of Farm and 17 century farm buildings.

At each of the above stages, various objections were made, and all ignored by the Council, the Planning Inspector at the Examination Stage, the applicant’s agents / Welsh Government

II. *“A failure to develop the site could cause implications to the ‘soundness’ of the LDP.”*

This could be seen as a threat to prevent objections being made against the proposal, and a threat to the Council that if the application is not approved then the Welsh Government will impose sanctions on the Council by reviewing the ‘soundness’ of the LDP and impose the development of more houses in the Cosmeston or the Council area.

III. *“The Vale of Glamorgan Council will need to consider whether the application accords with policies contained in the adopted Local Development Plan.”*

The Site Notices posted by the LPA notified the public that, “the application does not conform with the adopted Vale of Glamorgan Local Development Plan 2017”. The application is different to the proposal contained in the LDP. The applicant also indicates in the submitted documentation that parts of the development lie outside the boundaries of the LDP site proposal and therefore does not conform to the LDP.

5. Changes appear to being made to the proposed development by the Welsh Government without significant public consultation or redress by the public, or contrary to objections already raised.

I. A Report from the Design Commission for Wales, (DCfW) dated 21st January 2021 notes that changes have been made and concerns raised by DCfW are being ignored by the applicant, resulting in the DCFW being unsupportive of the scheme. The report (attached) contains extracts as follows: -

“Due to time constraints resulting from the extended presentation, significant elements of the scheme were not afforded the attention they need, not least the Vision, the Design Code and its status. The Commission would welcome further opportunities to review these critical aspects which set the foundation and key parameters for the proposals.”

“The Commission raised a number of fundamental concerns about this project in December 2019 and has to date seen no evidence that the masterplan has been meaningfully altered to take account of and respond to those concerns”.

“The Welsh Government, as client and land-owner, has a particular responsibility to deliver exemplary development that meets the standards and ambitions set out in policy and legislation which it advocates for others and this scheme must be exemplary in every aspect. It is unclear which elements of the proposed development will make it distinctive from other residential development, and we are not currently confident that it will result in an exemplar of residential led placemaking.”

“In consultation with the Commission in March 2019, Design Review in June 2019, and a DCFW workshop with the team in December 2019 fundamental concerns were raised regarding elements of the approach to the project. We are now a year on and based on the planning application materials available, there has been no change that would enable the scheme to meet the stated aspirations.”

“We have considered this report very carefully looking back at earlier correspondence and reports which are appended here. Based on these and the materials now submitted for review in January 2021, we are unable to support the proposals as they have been submitted for outline planning consent, which is in our view a premature step.”

The Report also briefly highlights the concerns of DCFW over: -

- the increasing heights of the building which appear to have been raised significantly from the original application, despite a considerable number of objections received on this issue.
- the positioning of the dwellings, “fronts to back”
- the location of the school and suggest that alternative locations be tested, and,
- that Active Travel and Net Zero Carbon Development aspirations cannot be achieved.

II. A report from the Vale of Glamorgan Council’s Principal Landscape Officer (dated 25th November 2020) shows concerns over the apparent reduction in buffer zone between the Wales Coastal Path and the development, by the developer. The Officer has also indicated concerns on the visual impact of elements of the development; -

“The height of the blocks of flats (now apparently raised to seven storeys) is intrusive.”

“Housing on the western boundary are particularly prominent and detracting.”

6. A request to “call-in” the application (attached) has been made to the Wales Planning Directorate (13th November 2020, Case No 1585.), on behalf of myself (Chair of Keep Cosmeston Green), together with The Saving Sully and Lavernock Group, Sully and Lavernock Community Council and the two Sully Ward Councillors of the Vale of Glamorgan Council.

As yet none of the concerns made in the call-in have been addressed by the applicant or the Local Planning Authority (LPA), with the Planning Directorate still awaiting the LPA’s report to refer the ‘call-in’ request.

In conclusion it is absurd that the Welsh Government make and promote policies on the Environment, Ecology, Biodiversity, Nature and Wildlife, Climate Change, Flooding, Active Travel, Contaminated Land Planning and the Future Generations Act, yet do not observe or follow these policies themselves and continue to decimate the rural nature of our land and its wildlife and its historic culture, increase traffic congestion and emissions, increase the flood risk in the area and yet expect local residents and other members of the public to put with their development and absolve the Welsh Government inexcusable behaviour by suggesting that Climate Change can be solved by families planting trees in their gardens, trees that will have to grow for many years before they absorb CO₂ at the same rate as the trees that they are removing. It is also concerning the inducements being made by the Welsh Government to the Vale of Glamorgan Council in order to get “their” development approved.

There is still time and opportunity for the Welsh Government to lead by example in supporting and promoting the Countryside and its Environment by following and observing their own Policies

I therefore ask on behalf of residents and the signatories of the petition, from across Wales, that the Welsh Government withdraw this application and “save the farmland and green fields at Cosmeston”.

Yours Faithfully,

Michael Philip Garland

Tudalen y pecyn 209

Eitem 3.14

P-05-856 Rhaid gwahardd gwerthu cŵn bach gan siopau anifeiliaid anwes a phob gwerthwr trydydd parti masnachol yng Nghymru (Cyfraith Lucy)

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan C.A.R.I.A.D., ar ôl casglu 11,195 o lofnodion.

Geiriad y ddeiseb

Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cymru i weithredu gwaharddiad ar werthu cŵn bach gan siopau anifeiliaid anwes a phob gwerthwr trydydd parti masnachol.

Mae gwaharddiad ar werthu cŵn bach gan drydydd partion am elw wedi'i enwi'n 'Cyfraith Lucy' ac fe'i cyhoeddwyd yn ddiweddar yn Lloegr. Mae cefnogaeth enfawr gan y cyhoedd, y cyfryngau ac ar draws y pleidiau i Gyfraith Lucy, ac rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cymru i gyflwyno Cyfraith Lucy yng Nghymru fel mater o frys.

Mae tynnu cŵn bach oddi ar eu mamau i'w gwerthu yn aml yn creu cŵn sâl, trist, wedi'u trawmateiddio, sy'n camweithredu. Dylid gallu gweld cŵn bach gyda'u mam yn y lle y cawsant eu geni. Mae eu cludo i le gwahanol ar gyfer eu gwerthu yn niweidiol o ran eu lles. Nid yw rheoleiddio gwerthu cŵn bach yn fasnachol gan drydydd partion yn effeithiol i atal niwed iddynt, ac felly mae gwaharddiad yn angenrheidiol er lles cŵn bach.

Caiff cŵn bridio a gedwir mewn ffermydd cŵn bach eu cuddio o olwg y cyhoedd ac yn aml maent yn dioddef trawma corfforol a seicolegol am flynyddoedd. Mae rheoleiddio gwerthu cŵn bach yn fasnachol gan drydydd partion yn aneffeithiol o ran atal niwed i gŵn bridio ac mae gwaharddiad ar drydydd partion ar werthu cŵn felly yn angenrheidiol er eu lles.

Byddai gwaharddiad ar werthu cŵn bach gan drydydd partion yn cael effaith gadarnhaol ar gŵn bridio, ac yn sicrhau eu bod yn weladwy, a byddai'n galluogi'r cyhoedd i weithredu ar gyngor arfer gorau i weld ci bach gyda'r fam ble y'i ganwyd.

Hefyd, ar hyn o bryd mae rhai pobl sy'n ffermio cŵn bach heb drwydded, a smyglwyr cŵn bach, yn defnyddio trydydd partion trwyddedig i werthu eu cŵn bach, ac mae hyn yn ei gwneud yn bosibl iddynt weithredu heb gael eu dal, a heb i awdurdodau lleol fonitro iechyd a lles cŵn bridio a chŵn bach. Mae rheoleiddio gwerthu cŵn bach yn fasnachol gan drydydd parti yn

anefeithiol wrth atal ffermio cŵn bach yn anghyfreithlon a smyglwyr cŵn bach, ac felly mae angen gwaharddiad ar drydydd partion o ran gwerthu cŵn, i ddiogelu cŵn, cŵn bach a'r cyhoedd, yn ogystal ag i atal gweithgarwch troseddol.

Nid oes dim manteision lles o werthu cŵn bach drwy werthwyr masnachol. Mae'r arfer hwn dim ond yn golygu bod cŵn bridio yn cael eu cadw o lygad y cyhoedd. Yn ogystal â phryderon am les anifeiliaid, mae gwerthiant gan drydydd partion yn creu risgiau ychwanegol i iechyd a diogelwch y cyhoedd.

Mae gwerthiant cŵn bach yn uniongyrchol gan fridwyr neu ganolfannau achub cŵn adnabyddus yn amddiffyn pob parti, yn sgîl rhagor o dryloywder ac atebolrwydd. Gallai gwaharddiad ar fargeinio am gŵn bach er elw godi safonau iechyd a lles ar gyfer cŵn bridio a chŵn bach, yn ogystal â darparu diogelwch y mae mawr ei angen ar gyfer y cyhoedd.

Mae gweithredu Cyfraith Lucy yng Nghymru hefyd yn hanfodol i fynd i'r afael â'r difrod a wnaed i enw da Cymru, sy'n parhau i gael ei gydnabod fel canolbwynt o ran ffermio cŵn bach yn y Deyrnas Unedig.

Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad

- Pen-y-bont ar Ogwr
- Gorllewin De Cymru

Rheoliadau Lles Anifeiliaid (Trwyddedu Gweithgareddau sy'n Ymwneud ag Anifeiliaid) (Cymru) 2021, [Y Cyfarfod Llawn 23 Mawrth 2021](#)

Diolch, Llywydd. Rwy'n cynnig y cynnig.

Hoffwn egluro'n gryno gefndir y ddadl heddiw ar Reoliadau Lles Anifeiliaid (Trwyddedu Gweithgareddau sy'n Cynnwys Anifeiliaid) (Cymru) 2021. Yn gyntaf, bydd adran 1(1) Deddf Anifeiliaid Anwes 1951 yn peidio â bod yn effeithiol o ran Cymru a bydd y rheoliadau hyn yn eu disodli. Yn ail, ac efallai'n fwy arwyddocaol, mae'r rheoliadau'n ei gwneud yn drosedd gwerthu ci bach neu gath fach nad yw'r gwerthwr wedi'i fridio ei hun ar y safle. Gwnes i ymrwymo yn gyntaf i ymchwilio i wahardd gwerthiannau masnachol trydydd parti cŵn bach a chathod bach ym mis Mehefin 2018. Mae hi wedi bod yn daith hir, ond ar hyd y ffordd, rydym ni hefyd wedi cymryd camau eraill i gryfhau gallu awdurdodau lleol ledled Cymru i orfodi'r rheoliadau presennol, yn ogystal â'r rheoliadau newydd hyn.

Mae'r rheoliadau hyn yn gam arall eto tuag at sicrhau lles cŵn bach a chathod bach sy'n cael eu bridio a'u gwerthu ymlaen i drydydd partion ar hyn o bryd. Mae eu lles yn gwella'n sylweddol drwy gael eu gwerthu gan fridwyr yn uniongyrchol i'r perchennog newydd yn unig. Ar hyn o bryd, gall trydydd partion masnachol werthu cŵn bach a chathod bach, sy'n golygu, yn y rhan fwyaf o achosion, na fydd prynwyr yn gweld y ci bach na'r gath fach yn rhyngweithio â'r fam neu'r brodyr a chwirydd. Efallai eu bod hefyd wedi gorfod dioddef nifer o deithiau cyn cyrraedd eu cartref newydd.

Daw'r rheoliadau sy'n cael eu gwneud heddiw i rym yn llawn ar 10 Medi. Yn ystod y cyfnod hwn, caiff canllawiau statudol eu cyd-gynhyrchu i gefnogi gorfodaeth gan awdurdodau lleol, a bydd yr amserlen hon hefyd yn caniatáu i werthwyr presennol y mae hyn yn effeithio arnyn nhw i wneud newidiadau ac ystyried model gweithredu gwahanol i liniaru unrhyw effaith bosibl. Hoffwn i ei gwneud yn glir y bydd canllawiau statudol ar gyfer swyddogion gorfodi yn rhoi'r hyblygrwydd sydd ei angen ar swyddogion awdurdodau lleol i orfodi'r gyfundrefn drwyddedu, sy'n llywio oddi wrth un dull gweithredu sy'n addas i bawb.

Rydym ni'n cyflwyno rheoliadau sy'n cau bylchau, o ran creu disgrisiwn ar orfodi i weithio gyda sefydliadau allweddol sy'n ymwneud naill ai â gweithgareddau ailgartrefu neu achub. Maen nhw'n darparu sianel i awdurdodau lleol asesu a yw'r anifeiliaid yn cael eu defnyddio er budd ariannol yn unig drwy'r prawf busnes, a'u nod yw gwella lles anifeiliaid, gan gefnogi penderfyniadau gwybodus gan y cyhoedd sy'n prynu. Rwy'n cymeradwyo'r cynnig i'r Senedd. Diolch.

P-05-915 Galwad am well gorfodaeth o ffermydd cŵn bach yng Nghymru
Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Laura Clays, ar ôl casglu cyfanswm o 112 lofnodion.

Geiriad y ddeiseb:

Yn dilyn y ffilmiau brawychus o ffermydd cŵn bach yng Nghymru, mae angen i ni weld gwell gorfodaeth o drwyddedu ffermydd cŵn bach gan gynghorau lleol yng Nghymru.

Argymhellion:

Cau ffermydd cŵn bach sydd ddim yn bodloni'r meini prawf gofynnol
Erlyn ffermydd cŵn bach sy'n rhoi lles anifeiliaid mewn perygl
Gwell tryloywder o ymweliadau wedi'u rheoleiddio – dylai fod cofnodion cyhoeddus fel y rhai a gyhoeddir gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd ar sgoriau hylendid bwyta. Dylai'r cyhoedd allu adolygu'r cofnodion arolygu.

Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad

- Alun a Glannau Dyfrdwy
- Gogledd Cymru

Eitem 3.16

P-05-939 Gosod embargo ar unwaith ar drwyddedau bridio cŵn newydd, ar adnewyddu trwyddedau ac ar geisiadau cynllunio nes bod y rheoliadau'n addas i'r diben a nes bod modd eu gorfodi

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan C.A.R.I.A.D., ar ôl casglu cyfanswm o 1,738 lofnodion.

Geiriad y ddeiseb:

Yn dilyn rhaglen ddogfen a ddarllledwyd ar BBC One Cymru nos Lun 30 Medi 2019, yn tynnu sylw at gyflwr dychrynlyd y fasnach cŵn bach gyfreithlon, drwyddedig a reoleiddir yng Nghymru, ffaeleddau'r broses arolygu, yr anghysonderau a'r camgymeriadau yn adroddiadau arolygu trwyddedau'r Cyngor a'r canllawiau gofidus, yn aml, a roddir gan filfeddygon i arolygwyr trwyddedau (nad ydynt yn arbenigwyr ym maes lles anifeiliaid) ar ffitrwydd cŵn bridio, rydym yn galw ar y Gweinidog i ymyrryd ar unwaith a rhoi cyfarwyddyd i holl gynghorau Cymru i osod embargo ar unrhyw drwyddedau newydd, ar brosesau adnewyddu trwyddedau ac ar geisiadau cynllunio'n ymwneud â bridio cŵn nes bydd ymchwiliad llawn wedi'i gynnal i'r ffaeleddau hyn: Ffaeleddau rydym wedi bod yn darparu tystiolaeth arnynt ers blynyddoedd i Lywodraeth Cymru a chynghorau sydd, yn eu tro, wedi'u hanwybyddu neu eu diystyru. Nid oes unrhyw ddiben parhau i roi trwyddedau bridio cŵn o dan yr amgylchiadau dan sylw. Byddai gwneud hynny'n caniatáu i system drwyddedu ddiffygiol barhau, gan beryglu lles cŵn bridio a chŵn bach yn y sefydliadau hyn ac yn rhoi ymdeimlad ffug o sicrwydd i'r cyhoedd a fydd yn credu ei bod yn iawn iddynt brynu ci gan sefydliad sydd wedi'i drwyddedu o dan y drefn bresennol. Mae'n amlwg ei bod yn anodd i'r cyhoedd wahaniaethu rhwng fferm cŵn bach trwyddedig a didrwydded a chan fod y Gweinidog ei hun wedi ymrwymo i gael gwared ar ffermydd cŵn bach yng Nghymru, mae'n sefyll i reswm y bydd hi am gymryd y camau mwyaf priodol, a hynny ar unwaith, i sicrhau bod hyn yn digwydd nawr. Er ein bod yn croesawu'r addewid i gynnal adolygiad brys o'r system drwyddedu bresennol, nid yw hyn yn mynd yn ddigon pell. Hyd nes y bydd Llywodraeth Cymru yn gosod rheoliadau cadarn, newydd ac addas i'r diben, ni ddylid cymeradwyo unrhyw drwyddedau newydd, ni ddylid adnewyddu unrhyw drwyddedau ac ni ddylid cymeradwyo unrhyw geisiadau cynllunio i adeiladu sefydliadau bridio cŵn newydd neu i ymestyn sefydliadau bridio presennol.

Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad

- Gogledd Caerdydd
- Canol De Cymru

Eitem 3.17

P-05-1068 Caniatáu cyfarfodydd ymbellhau cymdeithasol mewn gerddi preifat i ddilyn y wyddoniaeth ac osgoi teimlo'n ynysig

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Rachel Emma Ovet, ar ôl casglu cyfanswm o 273 lofnodion.

Geiriad y ddeiseb:

Cafodd llawer o bobl yng Nghymru a oedd yn gwarchod, neu mewn cartrefi gofal â mesurau llym a orfodwyd ar breswylwyr, eu gadael i deimlo'n ynysig am fisoedd ar gost enfawr i lesiant meddwl a chorfforol. Addawodd y llywodraeth na fyddai hyn yn digwydd eto. Mae cwrdd ag anwyliaid yn yr awyr agored mewn gardd breifat reoledig yn ffordd ddiogel i unrhyw un osgoi cael ei ynysu pan nad oes caniatâd i fynd i fannau cyhoeddus, neu pan mae pobl yn rhy ofnus i wneud hynny. Mae hyn yn golygu bod miloedd o bobl agored i niwed yn cael eu hynysu unwaith eto heb unrhyw fai arnyn nhw eu hunain.

Gwybodaeth Ychwanegol

Byddai'r mwyafrif helaeth o ddinasyddion gofalus sy'n cydymffurfio yn cyfarfod mewn gerddi preifat heb dorri'r rheoliadau. Nid oes tystiolaeth i awgrymu y bu mwy o achosion o dorri amodau mewn cartrefi preifat nag mewn mannau cyhoeddus. Nid oes tystiolaeth i awgrymu y bydd y rhai sy'n diystyru rheolau Covid yn ymddwyn yn well neu'n cydymffurfio'n well mewn mannau cyhoeddus yn hytrach na gerddi preifat. Mae'r feirws yn ymledu'n haws y tu mewn. Mae'r ddadl ynghylch mynd i mewn os caniateir cyfarfod mewn gerddi preifat yn ddiffygiol, gan fod y llywodraeth yn caniatáu cyfarfod dan do beth bynnag.

Mae'r feirws yn ymledu'n haws mewn mannau lle mae'n rhaid i bobl symud o gwmpas a mynd a dod, e.e. tafarndai. Mae alcohol yn effeithio ar farn pobl felly efallai na fydd pobl yn gallu ymbellhau'n gymdeithasol yn effeithiol ar ôl yfed. Mae'n anodd rheoli mannau cyhoeddus, strydoedd a pharciau, gyda llawer o bobl yn mynd a dod i gyfeiriadau gwahanol, gan ei gwneud yn

anodd rheoli pellter, heb unrhyw fai personol, ond gellir rheoli manau preifat.

Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad

- Gogledd Caerdydd
- Canol De Cymru



DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

TEITL	Adolygiad o Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) 2020
DYDDIAD	14 Gorffennaf 2021
GAN	Mark Drakeford AS, Y Prif Weinidog

Mae Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) yn ei gwneud yn ofynnol i gynnal adolygiad o'r cyfyngiadau coronafeirws bob tair wythnos. Heddiw rydym wedi cwblhau'r adolygiad diweddaraf a oedd i fod i gael ei gynnal erbyn 15 Gorffennaf.

Mae achosion coronafeirws yn cynyddu yn y gymuned, yn bennaf o ganlyniad i'r amrywiolyn Delta. Fodd bynnag, mae ein cyfraddau brechu uchel yn golygu bod nifer y cleifion sy'n cael eu derbyn i'r ysbyty yn parhau'n isel ac y gallwn gwblhau'r broses o symud i lefel rhybudd un. Mae hyn yn golygu o 17 Gorffennaf:

- Caiff hyd at chwech o bobl gwrdd o dan do mewn cartrefi preifat a llety gwyliau.
- Caniateir cynnal digwyddiadau dan do wedi'u trefnu ar gyfer hyd at 1,000 o bobl yn eistedd neu 200 o bobl yn sefyll, ar ôl cynnal asesiad risg.
- Caiff canolfannau sglefrio ailagor.

O'r dyddiad hwn gallwn hefyd ddileu'r cyfyngiadau ar y nifer o bobl a gaiff ymgynnull yn yr awyr agored. Caiff safleoedd a digwyddiadau awyr agored hefyd fwy o hyblygrwydd o ran y gofyniad i gadw pellter cymdeithasol. Bydd hwn yn un o'r camau lliniaru i'w hystyried, ond ni fydd yn ofyniad absoliwt.

Mae'r newidiadau eraill o 17 Gorffennaf yn cynnwys:

- Caniatáu i hyd at 30 o blant o sefydliadau, fel y Brownis a'r Sgowtiaid, i fynd i ganolfannau preswyl dros wyliau'r haf.

- Ei gwneud yn ofynnol i rannu'r risgiau a'r mesurau lliniaru a nodwyd yn yr asesiad risg COVID gyda chydweithwyr.
- Dileu'r cyfyngiadau sy'n ei gwneud yn ofynnol i bobl fod yn eistedd i yfed a bwyta mewn digwyddiadau yn unig.

Heddiw rydym hefyd yn cyhoeddi Cynllun Rheoli'r Coronafeirws diwygiedig sy'n amlinellu sut y byddwn yn symud y tu hwnt i lefel rhybudd un i set o gyfyngiadau sylfaenol.

Byddwn yn ystyried a yw'n bosibl i Gymru symud i lefel rhybudd sero newydd ar 7 Awst yn dilyn yr adolygiad nesaf o'r cyfyngiadau.

Ar lefel rhybudd sero:

- Bydd y cyfyngiadau cyfreithiol ar y nifer o bobl a gaiff gwrdd o dan do, gan gynnwys mewn cartrefi preifat, mannau cyhoeddus neu mewn digwyddiadau yn cael eu dileu.
- Bydd asesiadau risg COVID yn parhau i fod yn ofyniad cyfreithiol.
- Bydd mesurau rhesymol yn ofynnol yn gyfreithiol i reoli'r risg o ganlyniad i coronafeirws ond bydd rhaid i bob sefydliad benderfynu ar y rhain yn seiliedig ar ganlyniad eu hasesiad risg, gan gynnwys mewn perthynas â chadw pellter cymdeithasol.
- Caiff pob busnes a phob safle agor, gan gynnwys clybiau nos.
- Dylai pobl barhau i weithio gartref os yw'n bosibl.
- Bydd gorchuddion wyneb yn parhau i fod yn ofyniad cyfreithiol o dan do, ac eithrio mewn lleoliadau lletygarwch. Rydym yn disgwyl y byddwn yn llacio'r gofynion hyn yn raddol – gan ddechrau gyda lleoliadau lletygarwch o 7 Awst. Bydd ysgolion a cholegau'n defnyddio'r fframwaith a gyhoeddwyd gan y Gweinidog Addysg i benderfynu ar y defnydd o orchuddion wyneb

Cynllun Rheoli'r Coronafeirws: Lefel Rhybudd 0 (Gorfennaf 2021):
<https://llyw.cymru/cynllun-rheolir-coronafeirws-lefel-rhybudd-0-sero>

Coronavirus Control Plan: Alert Level 0 (July 2021):
<https://gov.wales/coronavirus-control-plan-alert-level-0-zero>

P-05-1068 Allow socially distanced meets in private gardens to follow science and avoid isolation, Correspondence – Petitioner to Committee, 27.08.21

It is unfortunately the case that the First Ministers' response to my petition came several months after it was first filed, and still did not address the issues I highlighted regarding vulnerable people and those connected to vulnerable people, in light of the Covid 19 restrictions. There was no response that addressed the points highlighted in my original petition.

When the committee met they agreed with the principle reflected in my petition, and there was an action to write to the First Minister to attempt to get him to address the restrictions on this section of society, but again, he failed to do this.

In short, there are two issues:

1. The responses and time taken to address has been inadequate in light of the changing circumstances the pandemic presented Wales with. The process for petitioning change is not fit for purpose when applied to regulation and change that is required for urgent matters. The fact that I am being asked to still provide comments on a petition that has been rendered superfluous by nature of time passing just supports this observation. I request to understand what other process there is to affect change for matters and policy impacting for circumstances such as Covid that required urgent, temporary and frequently changing policy. I believe there should be a fast track petition system for urgent matters, if one does not already exist.
2. Repeatedly the original points were not addressed in any response from the First Minister, and instead generic responses that merely reflected the overarching sentiment behind the restrictions at the time were offered. I believe this falls short of the expectation to seek to address the individual basis of each petition. If the First Minister simply reiterates that which is general address and not specific to the said petition, I see there is little purpose or outcome in the exercise.

Impact

As a result of the First Minister failing to address the points in my original petition, restrictions and policies remained in place which allowed for a situation whereby vulnerable persons, unpaid carers and those fearful of leaving home to go into public places, or those that could not leave their homes to go into public places had a lesser position of liberty as a result of the choices made during Covid. This impacted on the human rights and mental and physical wellbeing of a large section of society. This cannot be an acceptable position, and this cannot be allowed to be repeated. I have been personally impacted by the choices made. A close friend was kept essentially locked up in total isolation from all loved ones by his care provider, for over a year. I believe this is because the government did not do enough to introduce reasonable adjustments to protect the rights of vulnerable and disabled persons, or to introduce policies to force care providers to do more. My friend has declined significantly as a result, and has been at potential risk of harm from his care team. This is not an isolated incident, and both hospital admissions and deaths in the community for vulnerable and disabled persons that are non Covid related, have increased during the pandemic, with the overall health of this section of society thought to be declined in general.

Having worked for Carers UK in Wales as an ambassador, I am also aware that life was made unreasonably tough for the unpaid caring community, who did not have any specific policies tailored to their needs set throughout Covid. This group was left isolated in their homes, with no additional provision for dedicated supermarket slots for example, which were allocated to professional health workers, or any provision to lawfully accept visitors into their homes and gardens, as opposed to exposing themselves to public places, for those that could even leave their homes, as many could not. This section of society was not even recognised or celebrated in the same way the professional health workers were.

Unpaid carers in Wales represented over 12% of the population in Wales in the 2011 census. It is thought that this figure is now much higher, and higher still as a direct consequence of Covid, with around 370,000 unpaid carers in Wales.

There is not just a moral obligation, but a legal obligation to support unpaid carers, as their rights are enshrined in the Social Services and Wellbeing (Wales) Act 2014. I am aware that there is a Strategy for Unpaid Carers coming in the Autumn, but there have been no interim proposals and the First Minister did not refer to this in his response, and this strategy does not appear to seek to embed, or stretch its' remit to Governmental policy/legal decisions, such as the ones needed during Covid.

There are around 130,000 persons recognised as extremely clinically vulnerable. More alarmingly, as much as a quarter of all Wales residents are disabled. The true figure of those living with and dependent on care systems, either paid or unpaid, NHS funded or privately, is not known, but when taken in full context and including the unpaid carers that support this section of society, this could represent as much as 30% of our population.

During the pandemic, policies, exemptions and specific compensations were made for professional health workers. In one extreme policy change, to allow for meetings with up to six persons in pubs, the First Minister was transparent in his support for the youth population, despite their lessor needs and lessor risk to themselves, but increased risk for others. There has been a continuance of policies that further support school age children. For the older population, unpaid carers, vulnerable and disabled, I have not observed an equal emphasis on measured policies or mitigations (including for example garden visits, and enforcing care homes to do all they can to end isolation where it is safe to do so), for these sections of society, which is those both most vulnerable to Covid and most vulnerable to isolation, no measures were taken.

Next steps

Whilst I appreciate that the Covid position has negated the need for this petition on at least a temporary basis, I do feel that the First Minister needs to provide sufficient answers and assurance that the Government will seek to put in place policies that will permanently protect vulnerable persons, disabled and unpaid carers from isolation or being effectively trapped in their own homes, such that this situation cannot be allowed to be repeated.

I look forward to hearing how this develops.

Eitem 3.18

P-06-1191 Dylid cael gwared ar fesurau cadw pellter cymdeithasol ym mhob priodas yng Nghymru yr haf hwn ar ôl 15 Gorffennaf 2021

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Owain Evans, ar ôl casglu cyfanswm o 809 lofnodion.

Geiriad y ddeiseb:

I lawer o gyplau sy'n edrych ymlaen at ddechrau eu bywyd teuluol mae priodas yn un o'r digwyddiadau pwysig mewn bywyd. Mae cyfyngiadau Covid-19 yn golygu bod llawer o gyplau wedi gorfod gohirio eu cynlluniau priodasol sawl gwaith gan nad ydyn nhw am beidio â chael eu priodas ddelfrydol. Mae hyn wedi rhoi llawer o fywydau ar stop ac mae wedi cael effaith sylweddol ar iechyd meddwl miloedd.

A allai gwsteion priodas ddarparu canlyniadau profion negyddol, neu dystiolaeth o ddau frechiad er mwyn mynychu priodasau digyfyngiad?

Gwybodaeth Ychwanegol:

Ar 16 Mehefin 2021 roedd 88.2 y cant o holl oedolion Cymru wedi cael eu brechlyn Covid-19 cyntaf gan GIG Cymru, ac roedd 57.6 y cant o oedolion wedi cael eu hail ddos. Yn y saith diwrnod blaenorol roedd 4.6 y cant o'r holl oedolion wedi cael dau ddos o'r brechlyn gan GIG Cymru. Ar sail y ffigurau hyn, gellir rhagweld y bydd o leiaf 76 y cant o oedolion Cymru wedi cael dau ddos o frechlyn erbyn 15 Gorffennaf. At hynny, mae'r ail ddos wedi cael ei gyflwyno'n gyflymach dros y dyddiau diwethaf gyda 2.7 y cant o oedolion yn cael eu hail ddos yn ystod y tri diwrnod blaenorol. Gallai hyn gyflymu ymhellach gan fod brechiad cyntaf wedi cael ei gynnig i bob oedolyn yng Nghymru erbyn hyn, sy'n golygu bod brechlynnau dros ben.

Mae'n bosibl y bydd 76 y cant o oedolion Cymru wedi cael y ddau frechiad erbyn 15 Gorffennaf, felly pam y dylai mesurau cadw pellter cymdeithasol barhau ar gyfer priodasau? Yn enwedig o gofio y byddai pawb sy'n mynd i briodas yn fodlon cael prawf llif unffordd ac y byddai'n hawdd eu monitro a'u holrhain pe bai angen.

Dyma ffynhonnell yr holl ffigurau a ddefnyddiwyd:

<https://coronavirus.data.gov.uk/details/vaccinations>

Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad

- Gorllewin Caerdydd
- Canol De Cymru



DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

TEITL Adolygiad o Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau
Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) 2020

DYDDIAD 5 Awst 2021

GAN Mark Drakeford AS, Y Prif Weinidog

Mae Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) 2020 yn ei gwneud yn ofynnol adolygu'r cyfyngiadau coronafeirws bob tair wythnos. Roedd angen cynnal yr adolygiad diweddaraf erbyn 5 Awst.

Yn gyffredinol, mae trosglwyddiad Covid-19 wedi gostwng ar draws Cymru yn ystod yr wythnos ddiwethaf ac mae'r ganran o bobl sy'n profi'n bositif wedi dechrau gostwng yn raddol. Mae'r dystiolaeth yn parhau i awgrymu bod y rhaglen frechu wedi gwanhau'r cysylltiad rhwng achosion, y nifer sy'n gorfod mynd i'r ysbyty a marwolaethau. Mae'r pwysau ar y GIG wedi cynyddu'n raddol dros yr wythnosau diwethaf. Fodd bynnag, mae nifer y bobl sy'n cael eu derbyn yn ddyddiol i'r ysbyty ag achos tybiedig neu wedi'i gadarnhau o Covid-19 yn parhau'n agos at y lefelau isaf a welwyd ers dechrau'r pandemig.

Ar 16 Gorffennaf, cyhoeddwyd y *Cynllun Rheoli'r Coronafeirws* diweddaraf, sy'n nodi sut y byddwn yn symud i lefel rhybudd sero. Fel y nodwyd yn yr adolygiad diwethaf o reoliadau'r coronafeirws, gallaf gadarnhau y bydd Cymru'n symud i rybudd lefel sero am 6am ar 7 Awst.

Ar lefel rhybudd sero, ni fydd unrhyw gyfyngiadau cyfreithiol ar nifer y bobl sy'n gallu cyfarfod, gan gynnwys mewn cartrefi preifat, mannau cyhoeddus nac mewn digwyddiadau. Bydd yr ychydig fusnesau sy'n weddill, yr oedd yn ofynnol iddynt gau, gan gynnwys clybiau nos, yn gallu agor.

Wrth gymryd camau rhesymol i leihau'r risg o'r coronafeirws, bydd gan bawb sy'n gyfrifol am safleoedd sy'n agored i'r cyhoedd neu weithleoedd fwy o hyblygrwydd i deilwra'r mesurau hynny yn unol â chanlyniadau eu hasesiad Covid-19 a'u hamgylchiadau penodol.

Bydd angen gwisgo gorchuddion wyneb yn y rhan fwyaf o fannau cyhoeddus dan do o hyd, gan gynnwys ar drafnidiaeth gyhoeddus, ond ni fyddant yn ofyniad cyfreithiol mewn lleoliadau lletygarwch lle y gweinir bwyd a diod. Byddwn yn parhau i annog pobl i'w gwisgo yn y lleoliadau hynny lle mae'n ymarferol gwneud hynny.

Byddwn hefyd yn gwneud rhai newidiadau eraill:

- Mae canllawiau craidd newydd wedi'u llunio sy'n rhoi cyngor clir a chryno i fusnesau, sefydliadau, y rhai sy'n trefnu gweithgareddau a digwyddiadau, a'r cyhoedd.
- Mae'r gofynion mewn canllawiau statudol sy'n nodi y dylai safleoedd penodol gasglu gwybodaeth gyswllt yn cael eu dileu. Bydd hyn yn dod yn un o'r nifer o fesurau rhesymol y dylai pob busnes eu hystyried.
- Bydd y rheoliadau'n egluro nad oes gofyniad i wisgo gorchuddion wyneb ar drafnidiaeth awyr agored, fel cychod.
- Bydd Rheoliadau Diogelu Iechyd (Rhif 5) a Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Swyddogaethau Awdurdodau Lleol) (Cymru) 2020 yn cael eu hestyn hyd at ddydd Gwener 26 Tachwedd 2021.

Wrth symud i lefel rhybudd sero, bydd tair rheol bwysig yn parhau:

- Rhaid i bawb hunanynysu am 10 diwrnod os oes ganddynt symptomau Covid-19 neu os ydynt wedi cael canlyniad prawf positif.
- Rhaid i oedolion a phlant 12 oed a throsodd barhau i wisgo gorchudd wyneb yn y rhan fwyaf o fannau cyhoeddus dan do yng Nghymru, gan gynnwys ar drafnidiaeth gyhoeddus, mewn siopau ac mewn lleoliadau gofal iechyd.
- Rhaid i bawb sy'n gyfrifol am safleoedd sy'n agored i'r cyhoedd a gweithleoedd gynnal asesiad risg Covid-19 a chymryd camau rhesymol i leihau'r risg o ddod i gysylltiad â'r coronafeirws.

Mae'r coronafeirws yma o hyd. Er ein bod yn gallu cymryd cam sylweddol tuag at symud oddi wrth gyfyngiadau cyfreithiol cymhleth, rhaid inni beidio â rhoi'r gorau i'r holl fesurau syml sydd wedi gwneud cymaint i'n cadw i gyd yn ddiogel.

Mae'r rhain yn cynnwys cael eich brechu'n llawn; cael prawf a hunanynysu os oes gennych symptomau Covid-19; cwrdd ag eraill yn yr awyr agored lle bynnag y bo modd a chadw ardaloedd dan do wedi'u hawyru'n dda; cadw eich pellter pan allwch; golchi eich dwylo yn rheolaidd; gwisgo gorchudd wyneb mewn mannau cyhoeddus dan do a gweithio gartref pryd bynnag y bo hynny'n bosibl.

Mae cymryd cyfrifoldeb yn golygu y gallwn ailgydio yn y pethau rydym wedi'u colli fwyaf. Mae gan bob un ohonom ei reswm i ddiogelu Cymru.

Fel y nododd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol mewn Datganiad Ysgrifenedig ar 29 Gorffennaf, bydd y rheoliadau hefyd yn cael eu newid ar 7 Awst, sy'n golygu na fydd gofyn i bobl sydd wedi'u brechu'n llawn (ar ôl i 14 diwrnod fynd heibio) hunanynysu os cânt eu nodi fel cysylltiad agos. Byddwn hefyd yn dileu'r gofyniad i bobl o dan 18 oed hunanynysu os cânt eu nodi fel cysylltiadau.

Er mwyn sicrhau nad yw pobl ar incwm is yn dioddef yn ariannol, cyhoeddodd y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol mewn Datganiad Ysgrifenedig heddiw y bydd cynnig diogelu gwell ar gael i bobl y gofynnir iddynt hunanynysu ar 7 Awst neu wedi hynny. Bydd unrhyw ymgeisydd yn gymwys i gael taliad o £750, sy'n uwch na'r £500 blaenorol, dros y cyfnod hunanynysu o 10 diwrnod.

Caiff y datganiad hwn ei gyhoeddi yn ystod y toriad er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau. Pe bai aelodau'n dymuno imi wneud datganiad pellach neu ateb cwestiynau ar hyn pan fydd y Senedd yn dychwelyd, byddwn yn hapus i wneud hynny.